

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mai 2015

Rhif 455

50c

9Bach ar y Brig



MAE'N debyg fod y rhan fwyaf o ddarlennwyr y Llais yn gyfarwydd â sain unigryw y grŵp o Fethesda, 9Bach, ond yn ddiweddar mae eu llwyddiant wedi mynd gam ymhellach. Y nhw gipiodd y wobwr am yr albwm gorau yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2. Cynhaliwyd y seremoni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Yn ogystal â dod i'r brig gyda'r albwm, roedd y grŵp hefyd yn perfformio'n fyw ar y noson fawr, a hynny gyda neb llai na Chôr Meibion y Penrhyn yn eu cefnogi. Meddai Lisa Jên, y prif leisydd:

"Braint, a theimlad cynnes braf oedd cael dynion y côr tu ôl i ni ar noson y Gwobrau Gwerin. Mi oedd y noson yn uchafbwynt yn hanes 9Bach hyd yn hyn, a dan ni bellach yn 9 oed!!"

Yn ddi-os roedd hwn yn berfformiad cymunedol, gyda phawb ar y llwyfan yn canu am Fethesda, a delweddau o'r chwarelwyr tu cefn iddynt ar sgrin fawr. Ychwanega Lisa: "Roedd o reit emosiynol, ond roedd na ryw deimlad cadarn cryf hefyd. Fasa fo ddim yr un fath heb y Côr. Dan ni'n methu aros 'rwan i wneud mwy efo'n gilydd, ac mi fydd y cydweithio yn parhau - mae hynny'n sicr."

Llongyfarchiadau gwresog i'r aelodau, ac edrychwn ymlaen felly at dipyn Bach mwy!

Clod am Wasanaeth i Ieuenctid y Fro

Yng Ngwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru enillodd Andrew Speddy o Fethesda y teitl Gweithiwr Ieuenctid Eithriadol ac enwyd cynlluniau Appsteddfod a Chlwb Gwaith yn eilion gorau. Bwriad y seremoni, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, yw cydnabod a dathlu gweithwyr ieuenctid a chynlluniau ieuenctid gorau Cymru.

Cydnabuwyd Andrew Speddy am ei waith ar y cynllun Appsteddfod a hefyd am roi pobl eraill yn gyntaf yn ei waith fel Arweinydd Ieuenctid rhan amser. Enwebwyd ef gan y Gwasanaeth Ieuenctid am wneud ei orau bob amser ac am roi cyfleoedd o'r radd flaenaf i bobl ifanc.

Dyweddodd Andrew: "Roedd yn ffrainc cael fy enwebu ac roeddwn wedi gwirioni o wybod fy mod wedi ennill. Doeddwn i ddim yn disgwyl i neb roi fy enw ymlaen - doedd gen i ddim syniad fod hyn wedi digwydd tan i mi gael galwad i ddweud fy mod ar y rhestr fer o dri. Roedd yn sioc fawr i mi pan glywais fy enw yn cael ei gyhoeddi o'r llwyfan. Yn ystod y seremoni roedd fideos o'r bobl eraill oedd wedi eu henwebu ac roeddwn yn teimlo eu bod i gyd yn haeddu ennill. Mae'r wobwr wedi dod i mi wedi cyfnod anodd iawn yn bersonol, wedi i mi golli fy mam yn sydyn iawn ar Sul y Mamau y llynedd."



Andrew Speddy o Fethesda

Dyweddodd y Cyngorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Blant a Phobl Ifanc: "Mae Andrew o hyd yn rhoi anghenion y bobl ifanc yn gyntaf, er enghraifft ar ddiwrnod olaf prosiect pum wythnos fe roddodd ei alar ei hun i'r naill ochr er mwyn sicrhau fod y bobl ifanc yn gorffen y cwrs. Llongyfarchiadau calonnog iddo!"

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2015

"T.H. Parry Williams, yr Almaen a'r Rhyfel Byd Cyntaf"

Traddodir y ddarlith gan
Dr Angharad Price
yn Llyfrgell Bethesda
Nos Lun, 8fed Mehefin, 2015
7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb
Mynediad am Ddim

CALENDR LLAIS OGWAN 2016

Lluniau ar gyfer Calendr 2015 i mewn cyn
DIWEDD GORFFENNAF 2015

os gwelwch yn dda.

Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen
(gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau)
yn cael eu hystyried.

Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i

Dafydd Fôn deifon@yahoo.co.uk
neu (os heb fod yn ddigidol, neu ar ddisg)
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan. LL57 3TR

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

600297

cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

601592

Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

600427

sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams

601167

waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT

602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA

600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH

601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ

600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN

600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn gan Lowri Roberts a Walter W. Williams.

Golygydd mis Mehefin fydd Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW. 01248 601592. Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 3 Mehefin, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 18 Mehefin, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mai

17

Cymanfa Ysgolion Sul Eglwysi Annibynnol Bangor a Bethesda. Capel Carmel am 10.30.

19

Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

27

Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

28

Merched y Wawr Bethesda. Gwibdaith.

29

Sioe Un Dyn. John Ogwen. Clwb Criced Bethesda am 7.30

30

Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Mehefin

02

Merched y Wawr Tregarth. Gwibdaith y Gangen.

04

Sefydliad y Merched Carneddi. Cefnfaes am 7.00.

06

Bore Coffi Côr y Penrhyn. Cefnfaes. 9.30 – 12.00

08

Darlith Goffa Dafydd Orwig 2015. Llyfrgell Bethesda am 7.30.

13

Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

13

Marchnad Ogwen. Cae Sioe Dyffryn Ogwen.

18

Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

20

Te Mefus Eglwys Maes y Groes Talybont. Ysgoldy am 2.00.

20

Côr y Penrhyn a Black Dyke Band yn Venue Cymru Llandudno.

27

Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

Gorffennaf

01

Te Mefus. Festri Bethlehem Talybont am 7.00.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mai

£30.00 (111) Gwen Davies, Tanysgafell..

£20.00 (151) Lester Bath, Ffordd Ffrydlas..

£10.00 (21) Eleanor Morris, Rhos y Nant, Bethesda.

£5.00 (68) Gwyneth Roberts, Fferm Cochwillan, Talybont.

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA

600853

nev_hughes@btinternet.com

Cofiwch hefyd roi gwybod am unrhyw weithgareddau y gallwn eu cynnwys yn Nyddiadur y Dyffryn ac ar dudalen Beth sy'n Digwydd yn y Dyffryn.

Rhoddion i'r Llais

£10.00

Er cof annwyl am Tom a Mary Davies, Castle House, gan Emyr, Heulwen a'r teulu.

£4.50

Vera Davies, Dolgoch, Bethesda.

£50.00

Er cof annwyl am David Wyn Williams (Cochyn Twin) a fu farw 6 Mai 2013, yn 52 mlwydd oed. Yn ein calonnau am byth. Sandra, Sara a Darren.

£5.00

Mrs. June Jones, Rhoslan, Ffordd Bangor, Bethesda.

£25.00

Er cof am Mam, Mrs. Mari Williams, Carneddi, oddi wrth Jean a Meryl.

£20.00

Er cof annwyl am Neville Williams, a fuasai'n 60 mlwydd oed ar 2 Mai. Hefyd Hubert ar 15 Mai, a mam ar 2 Mehefin. Oddi wrth Dad, Joan a'r teulu.

£20.00

Er cof am Brian Ernest Neal, oddi wrth Nesta a'r teulu.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd

601415

Neville Hughes

600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN

07902 362 213

post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY

01248 601669

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Annwyl Olygydd

Cynhaliwyd Ffair Hanes Teulu hynod o lwyddiannus yng Nghanolfan Glasdir Llanrwst ddydd Sadwrn Ebrill 18fed, o dan ofal Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd - a hyn er gwaethaf tywydd hafaidd heulog! Cafwyd cyfle i helpu nifer o bobl a oedd yn hel achau a chyfle i groesawu aelodau newydd. ‘Roedd hi’n brysur hefyd ar stondinau cymdeithasau eraill a gefnogodd y diwrnod, megis Cymdeithas Hanes Llanrwst, Amgueddfa Penmaenmawr ac eraill. Yn ogystal gwerthwyd nifer o lyfrau gan Siop yr Hen Bost.

Os oes angen gwybodaeth bellach gellir cysylltu gyda mi, Dafydd Roberts, Ysgrifennydd, ar 01248 600102 neu david.roberts10@hotmail.co.uk <https://uk-mg42.mail.yahoo.com/neo/b/compose?to=david.roberts10@hotmail.co.uk> Diolch i bawb am ddod.

Dafydd Roberts,
Ysgrifennydd,
Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd.

Merched y Wawr,
Rhanbarth Arfon

Pwyllgor er budd yr anabl

Cynhelir

FFAIR HAF

fore Gwener, 5 Mehefin
yn Ffestri Eglwys Ebeneser,
Caernarfon
rhwng 10 a.m. – 12 p.m.
Stondinau amrywiol, rafflau,
paned o goffi/te a bisgedi

Pris mynediad: £1

Eleni bydd yr holl elw'n mynd
er budd pobl ifanc sydd â nam
ar eu golwg

Dewch yn llu i'n cefnogi!

Gworfoddoli yn
Neuadd Ogwen

Mae Neuadd Ogwen yn prysur
ehangu, ac o ganlyniad, mae
angen mwy o wirfoddolwyr i
gefnogi'r digwyddiadau.

Mae amryw o gyfleoedd i
wirfoddoli yn y Neuadd:

- Gwerthu Tocynnau
- Caffi'r Neuadd
- Tu ôl i far y Neuadd
- Rheoli'r taflunydd ffilmiau
- Stiwardio yn ystod digwyddiadau

A oes gennych chi ddiddordeb
mewn gworfoddoli?

Am ragor o fanylion cysylltwch
ag Owain Evans ar
07442 532 746 neu
owaingerlan@outlook.com

ADUNIAD
CYN DDISGYBLION YSGOL
DYFFRYN OGWEN
1977-1986

NOS SADWRN, 23 MAI, 2015
o 5.30 ymlaen

Cyfle i gwrdd â hen ffrindiau a
thrafod atgofion !

- Ymweld ag Ysgol Dyffryn Ogwen
am 5.30 o'r gloch (cyfarfod wrth y
Brif Fynedfa)

- Gwesty'r Douglas Arms am 6.30
o'r gloch (bwyd ar gael yng Nghaffi
Fitspatrick a disgo yn Nhafarn y
Tarw)

Croeso i chi daro mewn atom ar
unrhyw adeg o'r noson.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Keith
01248 600067/ 07412690600
(kl.ashton@tiscali.co.uk)

Trefniadau mewn cydweithrediad â
Ciansa- Cymru, Ysgol Dyffryn
Ogwen a busnesau lleol.

Collwyd yn y Rhyfel Mawr
Ganrif i'r mis hwn

Mae'r coffad isod ym mynwent
gyhoeddus Coetmor, Bethesda.

ER COF

Am

D. Williams

Milwr Cyffredin 16844

Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig

A fu farw

10 – 05 – 1915

Mab Richard Williams 25 Bryntirion,
Bethesda

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

Ein Gwir Hanes : Tro i'r Hen Ogledd
(hanes cynnar y Cymry, c400-750)

Lle mae Ystrad Clud, Pengwern, Rheged, y Gododdin ?

Dowch i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr yn Arfon, ddydd Sadwrn Mai 16eg i glywed am gyfnod pan oedd teyrnasoedd ein cyndadau Brythonig yn ymestyn o Gymru trwy ganolbarth a gogledd Lloegr i dde'r Alban. Siaredid Brythoneg - mam iaith ein Cymraeg ni - ymhell bell tu hwnt i ffiniau Cymru.

Mae'n hanes cyffrous, llawn balchder a gwrhydri. Nyni oedd deiliaid Ynys Prydain ymhell cyn i fewnfudwyr estron lanio yma, ffaith sy'n cael ei hanghofio, yn wir ei gwyrddroi gan y Saeson.

Ni cheir yr hanes hwn yn ein hysgolion, nac o'r bron ym mhrifysgolion Cymru. Rhaid gofyn, Pam?

Telir sylw dyledus a pharchus i'r cyfnod hwn ym mhrifysgolion goleuedig a diragfarn y cyfandir.

Mae peth o'r hanes yn ein llenyddiaeth gynnar - y cynfeirdd Taliesin ac Aneirin, ac yn y Mabinogi. Ond, am y darlun ehangach, dowch draw i wrando ar ein siaradwr gwybodus a huawdl, Dafydd Glyn Jones, Bangor. Cawn ddarganfod y cysylltiadau rhwng ein hanes cynnar a'n llenyddiaeth odidog, gyda digon o gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod. Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur ar unwaith !

Dydd Sadwrn Mai 16eg, 10.30 - 2.30pm

Mynediad am ddim, paned am ddim, ond dowch â thun bwyd gyda chi.

Cenhadaeth Canolfan Hanes Uwchgwyrfai i roi gwir hanes Cymru i'n cyd-Cymry yw'r gyfres o gyfarfodydd "Ein Gwir Hanes". Am ragor o fanylion, mae croeso i chi gysylltu â ni: canolfanuwcgwyrfaei@gmail.com 01286 660 546

GŴYL CERDD DANT
Llŷn ac Eifionydd 2016

Annwyl Gyfeillion,

Bydd yr Wyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Bwllheli yn 2016, ac yn cael ei chynnal yn adeilad Academi Hwyllo Cymru, sydd yn adeilad newydd sbon, nid nepell o draeth Glan Don yn y dref, sef Plas Heli.

Y mae cynnwrf ac edrych ymlaen yn lleol am gael cynnal yr Wyl unwaith eto yn ardal Llŷn ac Eifionydd, a'r pwyllgorau eisoes wedi dechrau cyfarfod i wneud y paratodau.

Un o'r tasgau cychwynnol yw chwilio am nawdd i'r cystadlaethau, dros ddeg ar hugain ohonynt i gyd.

Mae gwobrau ar gael yn yr adrannau canlynol:

- Cerdd Dant
- Y Delyn
- Llefaru (i gyfeiliant unrhyw offeryn neu gyfuniad o offerynnau)
- Canu Gwerin
- Dawnsio Gwerin

Os ydych yn dymuno rhoi gwobr ariannol yn un o gystadlaethau'r Wyl, yna byddai'r ysgrifenyddion yn falch iawn o glywed gennych. Gellir cynnig gwobr/gwobrau yn dechrau am gyn lleied â £15 ar ran unigolyn, teulu, gymdeithas, neu er cof am rywun arbennig, a bydd y manylion yn ymddangos yn Rhaglen y Dydd.

Mae cyfrannu gwobr yn ffordd effeithiol iawn o gefnogi'r Wyl, a gall unrhyw un sy'n talu Treth Incwm y Deyrnas Unedig ychwanegu at ei gyfraniad trwy lenwi ffurflen Rhodd Cymorth. Gyda'r Rhodd Cymorth, am bob £1 a gyfrennir, mae'r Wyl yn hawlio 25c yn ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Pe dymunech roi gwobr, neu am fwy o wybodaeth yn gyffredinol, yna cysylltwch ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Gwaith cyn diwedd mis Hydref os gwelwch yn dda- Gwyn a Rhian Parry Williams, Rhos Eithin, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd.LL53 6TF. 01766 810717 neu e bost: gwynarhian@btinternet.com

Diolch yn fawr, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i Llŷn ac Eifionydd yn 2016.

Yn gywir iawn,
Ken Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a John Eifion,
Trefnydd yr Wyl Cerdd Dant.

Eisiau Gofod Swyddfa ym Methesda?

Mae gan Bartneriaeth Ogwen ddesgiau i'w llogi i unrhyw un sy'n chwilio am leoliad hwylus i weithio yn Nyffryn Ogwen.

Mae gennym hefyd ystafell gyfarfod fechan ar gael i'w llogi am bris rhesymol.

Am fanylion a thelerau, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131 neu partneriaeth@ogwen.org

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Diolch

Dymuna Ioan a Geraint ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a’r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Llwyddo mewn prawf gyrru Llongyfarchiadau i Ceiran Emlyn, Rhoslan, Ffordd Bangor, am basio ei phrawf gyrru. Pob hwyl i ti ar y ffordd a chymer bwyll! Hefyd mae Ceiran yn dathlu pen-blwydd arbennig ar yr 20fed o Fai yn 18 oed. Pen-blwydd hapus iawn i ti oddi wrth Mam, Dad, Mari, Mei, Deio, Ifan, Iona Geraint, ac Eila.

Ysbyty

Cofion cynnes atoch a gwellhad buan i bawb a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:-
Mr Dafydd Morris,
Ffordd Abercaseg;
Mrs Rita Lewis, Pant Glas;
Miss Violet Williams,
Adwy’r Nant;
Mr Billy Williams, Maesygarnedd
Mrs Shirley Evans, Abercaseg;
Mrs Roma Griffiths, Garneddwen;
Mrs Helen W. Evans, Erw Las.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Llifon a Sioned, Penygroes ar enedigaeth eu mab, Owain Rhys. Llongyfarchiadau i Nain a Taid Abercaseg, sef Keith a Siân Ashton, ac i hen-nain Pant Glas, sef Shirley Pritchard.

Ar 22 Ebrill ganwyd efeilliaid, dwy ferch, i Ceri a’i chymar yn Abercaseg. Llongyfarchiadau i Nain Eleri a hen nain a hen daid Glanogwen, sef Llyfnwy a Sulwen Lloyd.

Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i ddau o’r dyffryn a ddathlodd ben-blwyddi arbennig, un ar ddiwedd Ebrill ac un ar ddechrau Mai, sef Alwyn Dart, Rhos y Nant ac Ian Jones, Bangor.

Ar 29 Ebrill, dathlodd Shona, Maes Coetmor, ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau.

Gorffwysfan

Bydd Gorffwysfan yn cynnal bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn, 30 Mai o 10.00 tan 12.00. Croeso.

Marwolaeth

Wedi salwch hir, ar 12 Ebrill yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Hughie Allen Jones, 16 Maes Coetmor yn 70 oed. Priod annwyl i Mrs Wendy Jones, tad hoffus i Stephen, Phillip a Dylan, tad-yng-nghyfraith Wendy a Gillian, a

thaid caredig i Lowri, Ceri, Huw, Erin ac Iwan.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 17 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen, ac Amlosgfa Bangor, lle y daeth tyrfa fawr o deulu, cyfeillion a chymdogion ynghyd. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Griff Jones gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth fawr o golli Hughie.

Profedigaeth

Ar 18 Ebrill yng nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli, bu farw Mrs Marie Williams (Mari neu Anti Mari i lawer), gynt o Blas Ogwen a 100 Ffordd Carneddi. Roedd yn 91 oed. Priod annwyl y diweddar Mr W. O. Williams, mam a mam-yng-nghyfraith garedig a gofalus i Jean ac Alan a Meryl a Hywel, nain hoffus i Bethan a Dave, Gethin a Manon, Carwyn a’r diweddar Gareth. Hen nain i Guto, Gareth, Osian a Deian, chwaer a chwaer-yng-nghyfraith, modryb a ffrind i lawer.

Roedd Anti Mari yn berson hoffus iawn ac yn hoff o sgwrs â phawb. Cynhaliwyd ei hangladd fore Gwener, 24 Ebrill, gyda gwasanaeth yng nghapel Jerusalem ac ym mynwent Pentir. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Gerallt Lloyd Evans a’r Parchedig Jim Clarke. Cyflwynwyd teyrnged i Nain gan Carwyn. Wrth yr organ roedd Mrs Annette Bryn Parri.

Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi Jean, Meryl a’r teulu i gyd yn eich colled a’ch hiraeth.

Cydymdeimlad

Ar 19 Ebrill, yn ei gartref, 31 Ffordd Carneddi, yn 61 oed, bu farw Mr Colin Bennett, priod annwyl Mrs Maureen Bennett a thad hoffus Nigel a Paula. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor fore Gwener 24 Ebrill. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth.

Marwolaeth

Ddydd Sadwrn, 25 Ebrill, yn dawel yng nghartref Cerrig yr Afon, y Felinheli, yn 93 oes, bu farw Mrs Elina Griffith, gynt o Erw Wen, Garneddwen. Priod annwyl Mr Emyr Griffith, modryb hoffus i Gareth a’r teulu, Gwyn a’r teulu a’r ddiweddar Helen a Valerie a’r teulu. Chwaer-yng-nghyfraith i Mrs Eirian Pritchard, Rhes Elfed a Mr Clement Jones, Bangor. Roedd yn gymydog da yng Ngarneddwen ac yn uchel ei pharch. Bu’n gweithio gyda’i phriod am flynyddoedd yn y gegin ac fel gofalwraig Ysgol Pen-y-bryn. Roedd yn aelod selog a gweithgar o Capel Carmel, Rachub. Cynhaliwyd ei hangladd fore Sadwrn, 2 Mai, sef diwrnod ei phen-blwydd yn 94 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Carmel ac ym mynwent Coetmor.

Priodas



Llongyfarchiadau i Iona Emlyn, merch Dei a June, Rhoslan, Ffordd Bangor, Bethesda, a Geraint Rees, mab Nan Roberts a’r diweddar Gareth Roberts o Waenfawr a briododd ar y 21ain o Fawrth yn Eglwys Betws Garmon.

Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig D. John Pritchard a’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams a chafwyd teyrnged i’w fodryb gan Gareth. Wrth yr organ roedd Mrs Helen Wyn Williams.

Cydymdeimlwn â chi, Mr Griffith, a’r teulu i gyd yn eich profedigaeth!

Profedigaeth

Dymuna Nesta, Christopher, Vanessa a’r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid caredig, sef Brian Ernest Neal. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Hosbis yn y Cartref.

Diolch

Dymuna teulu’r diweddar Derek Williams, 8 Arafa Don, Bethesda, ddiolch i’w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i’r Parchedig John Matthews am y gwasanaeth a hefyd i Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr.

Diolch

Dymuna Jean, Meryl a’r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, a hen-nain arbennig – Marie Williams (Mari) gynt o 100 Carneddi. Diolch hefyd i Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr a sensitif, ac i staff Plas Ogwen a Cherrig yr Afon. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Diolch

Dymuna Pwyllgor Apêl Elinor ddiolch o galon i Wynne Roberts, Dylan Roberts, a Gwyn Hughes am roi o’u hamser a’u doniau disglair i gynnal noson wych yn y Clwb Criced yn ddiweddar i godi arian ar gyfer yr Apêl. Cafwyd noson fythgofiadwy yn eu cwmni,

gyda’r criw niferus oedd wedi dod yno wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch yn fawr iawn, hefyd, i Hogs Mon, am baratoi’r lluniaeth blasus. Hoffai’r Pwyllgor ddiolch yn ogystal i’r Clwb Criced a Bowlio am ganiatáu inni gynnal y noson yn y Clwb, i bawb a gefnogodd y noson, a phawb fu’n cynorthwyo, ac i’r rhai a gyfrannodd roddion at y raffl. Trwy garedigrwydd a diwydrwydd pawb llwyddwyd i godi dros £1000 at yr Apêl. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Ffair Grefftau

Ddiwedd Ebrill trefnwyd Ffair Grefftau yn Llanberis i godi arian at Apêl Eleanor, a chafwyd diwrnod gwerth chweil a gododd dros £1300 at yr Apêl. Hoffem ddiolch i Ann Cumberton, a drefnodd y digwyddiad, ac i bawb o’i theulu a’i ffrindiau a fu’n helpu ar y diwrnod. Hoffem ddiolch, hefyd, i Linda, Ann, Joe, Eira, Glen, Carol, Eleanor, Dic, Rich, Paul, a Steven, am eu cymorth, ac i bawb a ddaeth â stondin i’r Ffair, a phawb a gefnogodd y Ffair trwy ei mynychu. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cafwyd bore coffi hynod o lwyddiannus yng Nghaffi Coed y Brenin ar Sadwrn, 28 Mawrth, pan wnaed elw o £454.00. Diolch i Karen a Linda, yn y Caffi, ac i bawb am eu rhoddion caredig a’u cefnogaeth.

Capel Bethania

Gwasanaethau

Mai

17 CAU.
Cymanfa Ysgolion Sul.

Mehefin

07 Mr Glyn Owen.
21 Parchg. Gwynfor Williams

**Oedfaon am 5.30 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb**

Teyrnged i Nain

sef y ddiweddar Mrs Mari Williams, Carneddi gan Carwyn

Un o’r atgofion cryfa sgin i am Nain ydy mor weithgar yr oedd hi. Yn debyg i lot o’i chenhedlaeth hi, roedd hi wedi gorfod gweithio o oed ifanc iawn, ond erbyn i mi gael fy ngeni roedd Nain eisoes wedi cyrraedd yr oed ymddeol, ac eto, erbyn iddi orffen gweithio go iawn, ro’n i’n tynnu am fy nhrideg. O weithio mewn ffatri, caffi, siop modeli plastig, siop elusen a siop trin gwallt, yn wir mi oedd CV Nain yn reit llawn erbyn y diwadd.

Ond, wrth gwrs, roedd hi’n weithgar iawn dros y teulu hefyd. Pan fyddai Taid ddim yn teimlo’n hwylus ers talwm ac yn methu mynd o gwmpas i hel insiwrans, mi fysa Nain yn mynd, ar droed, i hel ar ei ran. Er ei bod hi wedi pasio’i phrawf gyrru doedd Nain ddim yn dreifio rhyw lawar, am y rheswm syml nad oedd hi erioed wedi gorfod gwneud; mi oedd Taid yn mynd â hi i bob man. Ond ar ôl i ni golli Taid, dyma Nain yn penderfynu ailafael yn y dreifio, am wn i rhag colli annibyniaeth. Ond wrth gwrs, wedyn mi gododd y cwestiwn pwy oedd am fynd efo hi yn y car yn ystod yr ail afael“ma. “Wel DWI ddim” medda Jean, “Na finna”, medda Meryl. Wnâi ddim deud be ddywedodd Hyw, ond mi aeth Alan allan efo hi - UNWAITH!

Na, nath y dreifio ddim para, ond nath hi rioed golli ei hannibyniaeth chwaith. Doedd hi’n ddim gan Nain i neidio ar ddau neu dri o fysus er mwyn cyrraedd tŷ ni neu dŷ Anti Meryl, a hynny er mwyn llau neu smwddio neu beth bynnag oedd angan ei wneud. Ac roedd Nain yn fwy na pharod i helpu.

Ond bob hyn a hyn, mi fydda hi hefyd yn dod draw i warchod y cŵn pan fyddai Mam neu Anti Meryl wedi mynd ar wyliau, a ni’r plant wedi cyrraedd yr oed pan oeddan ni’n ddigon hen i aros adra. Dwi’n deud “gwarchod y cŵn” achos dyna oedd y naill riant a’r llall wedi ei ddweud wrthan ni’r plant, ond mae’n berffaith amlwg wrth sbïo’n ôl mai cadw llygad arnan NI oedd gwir bwrpas y trip. Ac mae 'na un stori benodol yn cadarnhau fod hyn yn angenrheidiol. Roedd Nain ym Mryngwrان ryw fora pan glywodd hi sŵn yn yr ardd. Ar ôl edrych drwy’r ffenast i weld beth oedd y sŵn, mi welodd hi mai Gareth a Gethin oedd yno yn cael... anghydweld bach. Dyna Nain ati rŵan i’w sortio nhw allan, Ond mae’n rhaid bod Nain wedi meddwl iddi ei hun, wel sut fedra i, dynas yn ei saithdegau, gael y gorau ar ddau lefnyn ifanc. Ar y pwynt yma mi welodd hi’r brwsh llawr. Mi ddaeth yr anghydweld i ben yn fuan wedyn a’r ddau lefnyn wedi dychryn yn fwy na neb.

Er gwaetha’r stori yna, dynas ddistaw a diymhongar oedd Nain. Er y byddai ganddi farn am amryw o bethau dwi’n siŵr, anaml iawn y byddai hi’n lleisio barn am ddim byd. Wedi deud hynny, roedd ambell achos pan oedd hi’n wir yn METHU â brathu ei thafod. Mi fyddai hi’n dod allan efo’r llinell anfarwol “Wel, dwi’n deud dim, ond mi dduda’i hyn...”

Mae’r golled i ni fel teulu yn enfawr ac mae 'na fwlch yn ein bywyda ni cheith byth mo’i lenwi. Ond mae 'na reswm hefyd i ddatflu dwi’n meddwl. I ddatflu’r bywyd llawn a hapus gafodd Nain. Roedd hi wedi medru byw ar ei phen ei hun yn nymbyr 100 tan ryw ddwy flynedd yn ôl, sy’n wyrthiol ynddo’i hun. A hyd yn oed ar ôl hynny mi gafodd hi’r gofal gora posibl ym Mhlas Ogwen ac yna yng Ngherrig yr Afon yn Felinheli. Mi ydan ni fel teulu yn werthfawrogol dros ben i’r ddau le yna am wneud ei dyddia ola hi mor gysurus â phosibl.

Yndi, mae heddiw yn ddiwrnod trist, ond mae’r atgofion melys y mae Nain wedi ein helpu i ni i’w creu yn mynd i fod yn amhrisiadwy wrth i ni ddygymod efo’r golled.

Cysgwech yn dawal Nain! XX.

SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn festri Capel Jerusalem yn lle Canolfan y Cefnfaes oherwydd yr Etholiad . Yr un oedd y croeso gan ein llywydd, Margaret Williams, ac roedd ychydig o ymddiheuriadau . Yr oedd pawb yn falch iawn o weld Violet Williams a Gwen Davies gyda ni ar ôl eu anhwylderau yn ddiweddar. Daliwch i wella ferched!

Ym mis Ebrill collwyd un o’r sefydliad oedd wedi bod yn aelod ers llawer o flynyddoedd, ond heb fedru mynychu ers tro, sef Mrs Marie Williams. Gofynnodd ein llywydd inni sefyll fel arwydd o’n parch. Mae ein cydymdeimlad yn mynd at y teulu i gyd!

Fel rhan o ddatiliadau canmlwyddiant y sefydliad yn gyffredinol aeth rhai o’r aelodau i westy y San Siôr Llandudno i’r cinio a’r cyngerdd dathlu. ’Roeddent wedi mwynhau yn fawr iawn!

Yn ein cyfarfod, gofynwyd i’r aelodau roi eu barn a thrafod penderfyniad i fynd ymlaen i’r cyfarfod blynyddol yn Neuadd Albert, Llundain, ym mis Mehefin . Y penderfyniad i’w drafod eleni fydd “Methiant Gofal ac Asesu Gofynion mewn Gofal Tymor Hir”. Mae rhai yn talu am eu gofal ac eraill ddim. Roedd pawb yn gytun am gael newid y drefn.

Ein gŵr gwadd oedd Arwyn Oliver, sydd yn barod bob amser i gadw noson inni.

Ei bwnc oedd trychineb Nepal. ‘Roedd wedi bod yno ychydig o flynyddoedd yn ôl . Gwlad dlawd iawn beth bynnag yw Nepal, ond mae’r sefyllfa yma yn erchyll i’r bobl erbyn hyn . Roedd ganddo luniau o’r adeiladau a’r temlau yn ogystal â lluniau o’r bobl oedd wedi eu tywys o gwmpas yr ardal pan oedd Arwyn yno .Diolch byth erbyn hyn, mae wedi clywed bod ei ffrindiau yn Nepal yn sâff, ond yn byw mewn pebyll am fod eu cartrefi wedi eu dymchwel.

Diolchwyd i Arwyn gan Margaret, ac i’r merched am y baned. Enillydd y raffl oedd Doris – y wobr yn rhodd gan Gwen.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Llwyddiant

Yn ystod gwyliau’r Pasg cafodd Gwydion Rhys, Bron Arfon, ynghyd â Beca Nia, Talybont, wahoddiad i ymuno â Cherddorfa Ieuenctid y Pedair Sir (sef Wrecsam, Fflint, Dinbych a Chonwy) ar gwrs preswyl yn Ysgol Moreton Hall ger Croesoswallt. Daeth y cwrs i ben gyda chyngerdd yn Eglwys San Paul, Bae Colwyn gyda Chôr Ieuenctid y Pedair Sir. Mae Gwydion yn chwarae’r soddgrwth a Beca’n chwarae’r obo.

Yn ddiweddar hefyd clywodd Gwydion ei fod wedi’i dderbyn i Gerddorfa Ieuenctid Gogledd Cymru ar eu cwrs preswyl ym mis Awst, ac mae’n edrych ymlaen yn fawr at hynny.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Melaine a Nigel, Maes Bleddyn, yn dilyn eu profedigaeth o golli tad Nigel, Colin Bennett, yng Ngharneddi.

Priodas Hapus

Llongyfarchiadau i Huw Geraint Jones, Bron Arfon, a Catrin Roberts, Tregarth, ar achlysur eu priodas ar Sadwrn, Mai 2. Fe gynhaliwyd y briodas ym Mron Eifion, Cricieth. Bydd y cwpwl hapus yn ymgartrefu ym Mhenisarwaun.

Longyfarchiadau

i Jonathan a Stacey, Cefn Carmel, ar enedigaeth efeilliaid, Lacey a Grace yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r teulu.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

Mai

17 Cymanfa Ysgolion Sul yng Ngharmel 10.30.
24 Gweinidog
31 Parchg Dafydd Coetmor Williams

Mehefin

07 Gweinidog (Cymun)
14 Parchg Geraint Roberts
21 Parchg Marcus W. Robinson

Oedfaon am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur, nos Wener am 6.30.
Te Bach: Dydd Llun, 18 Mai. 2.30 – 4.00

Croeso cynnes i bawb.

Capel Bethel

Gwasanaethau

Mai 17 Parchg. Edmond B. Owen.
Mai 24 Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam.
Mai 31 Gweinidog
Meh. 07 Gweinidog.
Meh. 14 Parchg. Ddr. Rhys Llwyd.
Meh. 21 Dr Tudor Ellis.
Meh. 28 Parchg. Ddr. Huw John Hughes.

Oedfaon am 2.00 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Oedfaon am 2.00 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel



Mwynhawyd prynhawn difyr yn ystod Gwyliau'r Pasg yng nghwmni Mr Ben Stammers, yn gwylio adar, morloi a llamhidyddion ym Mhenmon. ‘Roedd Ben yn ein dysgu am y bywyd gwyllt, ac wedi dod a sbienddrych a thelisgob er mwyn i ni gael gweld y pell yn agos drwyddynt. Bu'r criw ifanc yn sgetsio lluniau o Ynys Seiriol, y Goleudy ac adar y môr. Bu Mr Bryan Griffith o gymorth mawr wrth ddangos technegau arlunio i ni. Aethom ymlaen i weld y colomendy hynafol, a Ffynnon Seiriol ac Eglwys Penmon. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r bobl ifanc, ac i Mr Derfel Owens am fynd â ni'n ddiogel yn y bws bach.



Pawb wrth y colomendy

Carmel, Llanllechid Te Bach

PNAWN LLUN, 18 Mai
2.30 - 4.00
Croeso cynnes

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb ar Ebrill 8fed, a chafwyd cyfle i ddymuno'n dda i nifer sydd heb fod yn dda dros y misoedd diwethaf. Yn eu plith ‘roedd Mrs Rhiannon Evans a Mrs Betty Williams. Da oedd gweld Mrs Margaret Rees Williams yn ôl gyda ni a hithau wedi methu dod i nifer o gyfarfodydd oherwydd anhwylystod. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Margaret Owen, a dymunwyd yn dda i Vera Morgan yn ei chartref newydd. Y siaradwr gwadd oedd Mr Paul Rowlinson, a chafwyd sgwrs ddiddorol am waith Bugeiliaid y Stryd ym Mangor. Enillodd Glenys Roberts y wobr Iwcus, a roddwyd y mis yma gan Margaret Roberts.

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid

Daeth cynulleidfda dda iawn i festri Carmel i wrando ar sgwrs am y teulu Davies, Wern Bach, Llanllechid (1840 - 1968) gan Sue Hopkins.

Mae Sue, sy’n enedigol o Firmingham, erbyn hyn yn byw yn Wern Bach, ac wedi dysgu’r Gymraeg yn ardderchog. Bu’n ymchwilio i hanes y teulu Davies, - eu hynt a’u helynt drwy gyfnod cythryblus y Streic Fawr, - y plant yn gorfod symud ysgol oherwydd eu cysylltiad â’r eglwys, er nad oedd y teulu’n ‘fradwrs’!

Roedd ganddi ffotograffau a gwybodaeth am gymeriadau oedd yn gyfarwydd iawn i rai o aelodau’r gynulleidfa.

Roedd yn sgwrs hynod o ddiddorol - diolch yn fawr, Sue!

Clwb Hanes Rachub Caellwynrydd a Llanllechid

Nos Fercher, Mai 27
am 7 o’r gloch yn Festri Capel Carmel.

Bydd sgwrs gan
Dr John Llewelyn Williams
‘Tyfiant pentrefi lleol’

CROESO CYNNES!

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid

NOSON
WILLIAM MORGAN
(a’i ddefaid!)
yng nghwmni
Hogia’r Bonc

yn y Clwb Criced, Bethesda
Nos Wener, 26 Mehefin

MWY O FANYLION YN FUAN

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Llwyddiant ysgubol
Rydym yn llongyfarch Lisa a Martin, Gwernydd, a’u grŵp, 9bach, ar eu llwyddiant ysgubol yn ennill gwobr albwm gorau’r flwyddyn yng ngwobrau Gwerin Radio 2. Dyma’r tro cyntaf i unrhyw un o Gymru, yn Gymraeg neu yn Saesneg, gael eu henwebu ar gyfer gwobr mewn unrhyw gategori yn y gwobrau hyn. Enillodd yr albwm Tincian y wobr yn haeddiannol, a hynny gyda chlod mawr, a chefnogaeth llawer iawn o bleidleiswyr. Da iawn chi, 9bach, ar eich buddugoliaeth, a phob hwyl a llwyddiant i chi yn y dyfodol!

Nain a thaid
Llongyfarchiadau i Rhian a Richard Ogwen, Yr Ardd Fawr, ar ddod yn nain a thaid i efeilliaid. Ganed Cêr Ogwen ac Anni Glyn i’w merch Ceri, a’i phartner, Alun, sy’n byw yn Stryd Brynteg, Carneddi. Pob dymuniad da i chi fel teulu!

Priodas hapus!
‘Rydym yn dymuno’r gorau i Meurig ac Emma Griffith, Stryd y Ffynnon, ar eu priodas yn ddiweddar. Aethant yr holl ffordd i Gretna Green yn yr Alban i briodi. Llongyfarchiadau mawr i chi’ch dau, a phob bendith i’r dyfodol

Brysiwch wella
Mae Helen Williams, Ciltwllan, wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth feddygol. Bellach mae adref, ac yn gwella. Rydym yn dymuno’r gorau iddi am wellhad llwyr, ac yn anfon ein cofion ati.

Swydd newydd
Llongyfarchiadau i Owain Rhodri Evans, Rallt Isaf, sydd wedi ei benodi yn Swyddog Gweinyddu a Marchnata Neuadd Ogwen. Rydym yn dymuno’r gorau iddo yn ei swydd newydd.

Pen-blwydd arbennig
Mae Mari Davies newydd ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ddechrau Mai. Llongyfarchiadau mawr iti, Mari. Gobeithio’n fawr iti fwynhau’r dathlu gyda’th deulu a’th ffrindiau. Rydym i gyd yn dymuno’r gorau iti yn y dyfodol, ac yn arbennig gyda’th arholiadau Safon Uwch yr haf hwn.

Priodi
Ddechrau Mai priododd ŵyr Myfanwy Jones, Gwernydd, yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth. Rydym yn dymuno’r gorau i Huw Geraint Jones, Rachub, a Catrin Roberts, Tregarth yn eu bywyd priodasol.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Wayne a Tracey Sherlock, a’r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli ewythr Wayne, sef y diweddar Hugh Jones, Maes Coetmor.

Dathlu’r 70
Ddiwedd Mai bydd Pete Brown, Gwernydd, yn dathlu pen-blwydd arbennig, pan fydd yn cyrraedd y 70 oed. Llongyfarchiadau mawr, Pete, ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon. Rydym yn dymuno’r gorau iti, ac yn gobeithio y byddi’n mwynhau’r dathlu gyda’r teulu a ffrindiau. Pob dymuniad da iti i’r dyfodol.

Arholiadau
Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau i holl blant a phobl ifanc yr ardal sy’n sefyll unrhyw arholiadau mewn ysgol neu goleg yn ystod yr wythnosau nesaf. Pob llwyddiant i chi i gyd!

Nant Ffrancon

Mai
17 Parchg. Dafydd Wyn William
24 I’w Gyhoeddi
31 Mr Arwel Roberts

Oedfaon am 2 o’r gloch

Capel Nant y Benglog

Mehefin
07 Ann, Ty’n Lôn i drefnu
14 Y Parch. Huw John Hughes
21 Mr Norman Closs Parry

Croeso cynnes i bawb

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Geni

Llongyfarchiadau i Lynne a Michael, 17 Dolhelyg, ar enedigaeth eu pedwerydd mab ar 7 Ebrill. Mae Mathew, Ben a Sam wrth eu bodd gyda’u brawd bach newydd!

Priodi

Llongyfarchiadau i Emma Davies, gynt o 29 Cae Gwigin, ar ei phriodas â Meurig Griffith, o’r Gerlan, a hynny yn Gretna Green. Pob dymuniad da i’r dyfodol.

Diogelwch Cartrefi



Yn ddiweddar anfonodd y Gwasanaeth Tân injan dân i Dalybont i wneud yn siŵr bod cartrefi’r pentref yn ddiogel. Yn y llun gwelir tri o hogia’r pentref , sef Sam, Brandon a Tomos Glyn yn gwneud yn siŵr bod yr injian dân yn ddiogel!!!

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Mai
17: CAU – Cymanfa Ysgolion yng Nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30;
24: Gweinidog;
31: I’w Gyhoeddi; Mehefin
07: Parchg. W. R. Williams; 14: Gweinidog;
21: Parchg. Megan Williams, Porthaethwy;
28: Gweinidog.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.
Te Mefus
Ar nos Fercher, 1 Gorffennaf, y cynhelir ein te mefus eleni.

Te Mefus

Ar nos Fercher,
1 Gorffennaf

y cynhelir ein te mefus eleni.

Eglwys Maes y Groes

Yr Wythnos Sanctaidd

Dathlwyd yr Wythnos Sanctaidd gyda gwasanaethau yn cychwyn ar Ddydd Iau Cablyd hyd at Sul y Pasg, dan ofal y Parchedig John Matthews a’r offeiriad cynorthwyol, y Barchedig Christina McRae. Diolch i’r aelodau fu’n gyfrifol am addurno’r Eglwys mor hardd.

Pererindod

Fe gynhelir Pererindod ym Môn ar 31 Mai. Os oes rhywun â diddordeb, a fuasech mor garedig a ffonio Catrin Hobson, ein Warden, am ragor o wybodaeth (rhif ffôn: 07881802882), neu un o wardeiniaid y chwe eglwys arall.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Mrs. Sheila Owen, Milbank, Dolhelyg, a’r teulu oll. Collodd Sheila ei brawd yng nghyfraith ddiwedd Ebrill.

Te Mefus

Cofiwch am ein Te Mefus blynyddol a gynhelir yn Ysgoldy Maes y Groes, ar Sadwrn, 20 Mehefin am 2 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎ 353886

Cydymdeimlo

Dydd Sul, 12 Ebrill, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Capten Richard Elwyn Parry, Porthaethwy, yn 87 mlwydd oed. Gŵr annwyl i Bet, tad caredig i Richard a Rodney a’u gwragedd, taid a hen-daïd hoff i’r wyrion a’r gorwyrion bach. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, 17 Ebrill. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu Edwyn, Bet a’r teulu yn byw yn y Berllan, Parc Penrhyn am y cyfnod pan oedd mam a thad Bet, sef Mr a Mrs Barnard, yn byw yno. Wedi marwolaeth Mr Barnard fe symudodd Mrs Barnard i fyw yn 13 Pentre Llandygái.

Gwaeledd

Roeddem yn falch iawn o glywed bod Dian Hughes, Drws y Coed, yn cryfhau bob dydd ac yn gwella’n araf deg. Cymrwch bwyll, Dian, a pheidiwch â mentro gormod – mae gennych nyrs arbennig yn Emyr eich gŵr. Mae ein cofion gorau a dymuniadau da yn mynd at Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams - rydym yn falch o glywed fod rhai ohonoch wedi dechrau codi allan.

Rydym yn meddwl am Anne, merch Peter a Jill Bullen, sydd yn dal yn wael – mae gwreiddiau gyda chwi oll fel teulu a bendith Duw a fo arnoch i gyd

Diolch

Carai Mrs Muriel Owen, 5 Pentre Llandygái, ddatgan ei diolch i’r teulu, ffrindiau a chymdogion, am fod mor garedig a chofio amdani ar 17 Ebrill, sef diwrnod ei phen-blwydd arbennig. Cafodd gardiau lu, anrhegion o bob math a blodau hyfryd – digon i gadw siop, heb sôn am bartïon a chiniawau yn ystod yr wythnos. Mae pawb yn falch eich bod wedi cael amser mor braf Muriel.

Parti Pen-blwydd Mary

Prynhawn Sul, 26 Ebrill, yn Neuadd Talgai cynhaliwyd parti arbennig i Mary Robinson i ddathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Roedd yn ddiwrnod heulog braf a Joy a’r merched wedi paratoi gwledd yn y neuadd i ffrindiau a chymdogion Mary. Cafodd pawb amser da a digon i’w fwyta. Diolch i bawb a roddodd help llaw i wneud y diwrnod yn un mor gofiadwy i Mary.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Roeddem yn falch iawn o weld Hafina yn yr eglwys fore Sul y Pasg ar ôl llawdriniaeth i’w phen-glin yn ddiweddar. Daeth i’r cymun fore Sul, 20 Ebrill a’r bore Mercher canlynol, er ei bod mewn tipyn o boen, ond mae’n teimlo’n well mewn cwmni, a chael sgwrsio.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy’n wael ac wedi eu caethiwo i’w cartrefi:- Jane Couch, Ben Cramb, Gwyn Edwards, Enid Gardner, Harry Gross, Dorothy Hanks, y Parchedig Aelwyn Roberts ac Audrey McSorley – brysiwch wella.

Pen-blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus i Rory Cramb, ŵyr i Hefina Chamberlain, sydd yn byw yn Durham, a fydd yn dathlu ei ben-blwydd arbennig yn ddeunaw oed ar ddydd Sul, 17 Mai. Hwyl fawr i ti Rory.

Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Gwenan a fydd yn cael ei phen-blwydd ddydd Llun, 18 Mai. Gobeithio y cei ddiwrnod hapus lle bynnag y byddi, un ai yn Ffrainc neu yng Nghymru fach. Byddwn yn meddwl amdanat, Gwenan, a lwc dda i ti yn y dyfodol.

Ddydd Mercher, 27 Mai, bydd y Parchedig John Matthews yn dathlu ei ben-blwydd yntau. Gobeithio y caiff ddiwrnod wrth ei fodd – Dim gormod o siocled, John

Cyfarfod Blynyddol y Festri

Cynhaliwyd Festri’r Pasg ar nos Lun, 23 Mawrth yn Ficerdy Pentir. Diolchodd y Ficer i’r wardeiniaid, y trysorydd, yr ysgrifenyddes, i Geraint yr organydd, ac i bawb arall am eu cymorth drwy’r flwyddyn. Ail-etholwyd Edmond ac Ann yn wardeiniaid, Nerys yn ysgrifenyddes, ac Edmond yn drysorydd, gyda holl aelodau’r pwyllgor eglwysig yn cael eu dychwelyd am flwyddyn arall.

Sul y Pasg

Daeth cynulleidfa dda i’r cymun Bendigaid fore Sul y Pasg, 5 Ebrill, gyda’r Parchedig John Matthews yn gweinyddu a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Bu canmolïaeth fawr i’r canu ac i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaeth.

Diolch i Hazel a’r merched am addurno’r eglwys mor hardd gyda blodau’r gwanwyn - bu rhan helaeth ohonynt fyw hyd ddiwedd y mis.

Eglwys Sant Tegai

BINGO
Yn Neuadd Talgai

Nos Fawrth, 26 Mai
am 7.00 o’r gloch

Croeso cynnes i bawb

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

Croesawn Roger, Gill a’r teulu i 3, Pen y Graig – ‘rydym yn gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Anfonwn ein cofion at Mrs Norma Jones, 2, Pen y Graig, ac at Hugh ei gŵr, sydd yn gofalu’n dyner amdani. ‘Rydym yn meddwl am bawb sydd yn gaeth i’w cartrefi, yn eu mysg Mrs Eirlys Jones, 4, Braichmelyn.

Braf oedd gweld ebol bach newydd-anedig yn y cae ger Tangadlas - bywyd newydd, a phrofiad arbennig!

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jocelyn a Mike Bowen Tyddyn Llywelyn, Waen Wen, ar ddod yn nain a thaid i Oscar, mab bach i'w mab Joe a'i bartner Kerri.

Hefyd, mae Elfed Griffith, Bryn Dedwydd, Waen Wen yn hen daid, a'i ferch Eirwen yn nain i Junior James Wayne, mab bach i'w merch, Sarah Jane a'i phartner.

Dwyn olew

Byddwch yn wylidwrs, mae 'na ladron o gwmpas! Mi gafodd llond tanc o olew ei ddwyn yn ddiweddar o ardd tŷ yng Nglassingfryn. Roedd y lleidr/lladron yn amlwg wedi bod yn cadw golwg ar y tŷ gan eu bod wedi tynnu carreg o wal er mwyn cael at y tanc. Felly, os oes gennych chi danc olew, efallai y byddai'n dda o beth i chi feddwl am fesurau diogelwch er mwyn ei warchod rhag dwylo blewog!

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yng nghwmni Richard o Ganolfan Arddio Holland Arms. Llywyddwyd y cyfarfod gan Sarah Flynn, ac wedi trafod materion y sefydliad, croesawyd aelod newydd i'n plith, sef Nesta Neale. Mwynhawyd paned wedi ei threfnu gan Marian a Nesta.

'Doedd dim angen cyflwyno Richard i ni mewn gwirionedd, oherwydd mae'n dod yn flynyddol i'n paratoi ar gyfer plannu yn y gwanwyn. Braf yw cael ei gwmni di-lol a'i ddawn ddiffwdan yn paratoi potiau a basgedi crog. Eto eleni roedd ganddo amrywiaeth o blanhigion i'w dangos - rhai sy'n gyfarwydd, a rhai newydd ar y farchnad.

Dangosodd sut i blannu basged crog, gan ddefnyddio pansis piws a melyn a oedd yn effeithiol dros ben. Rhoddwyd y fasedg yn raffl ac fe'i henillwyd gan Kath Jones. Lwcus a lyfli!

Diweddglor noson oedd cael cipolwg i mewn i'r goodie bag a ddaw Richard gydag ef bob tro. Bag yn llawn amrywiaeth o bethau garddio, popeth a allwn ni feddwl amdano i wneud ein gwaith yn yr ardd yn hawdd, ac i'n galluogi i gael gardd gwerth chweil! Mae'n bleser cael ei gwmni, a diolchwyd iddo gan Margaret Owen.

Sam yn creu cynnwrf!

Mae Sam yn creu dipyn o gynnwrf yng Nglassingfryn pan mae'n mynd am dro drwy'r pentref gyda'i fam fabwysiedig.

Oen bach llywaeth ydy Sam oedd yn bythefnos oed pan ddaeth o i Lasinfryn. Mae'n ddu ar hyn o bryd ond mi fydd lliw ei wllan yn goleuo wrth iddo dyfu. Mae'n perthyn i braidd o ddefaid Herdwick sydd gan ffermwr lleol, Geraint Evans. Mae defaid Herdwick yn dod yn wreiddiol o ardal y Llynnoedd yn Lloegr ac maen nhw'n gallu byw y tu allan mewn tywydd garw. Defaid Herdwick oedd gan yr awdures enwog Beatrix Potter ar ei fferm hithau yn Ardal y Llynnoedd.

Yn anffodus, pan gafodd Sam ei eni, 'doedd gan ei fam ddim diddordeb ynddo fo, ac roedd yn rhaid i Geraint, a Jo Gordon o Lasinfryn, oedd wedi bod yn ei gynorthwyo gyda'r defaid dros y tymor wyna, ei fwydo gyda photel. Cynigiodd Geraint fod Jo yn cymryd drosodd y gofal o Sam, ac mae'r oen bach wedi bod yn byw yng nghartref Jo yng Nglassingfryn ers hynny. Mae'n cael ei fwydo gyda photel bob teirawr. Mae Jo hefyd yn mynd â Sam am dro o amgylch y pentref ar dennyn, ac mae'n amlwg yn mwynhau'r dro a'r sylw!



Mae Jo hithau wedi gwirioni ar Sam ac yn mwynhau ei weld yn prifio. Jo ydy Rheolwr dros dro'r siop newydd ym menter Moelyci, ac mae hefyd yn gweithio gyda'r tîm dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor. Mae'n dod o Fife yn yr Alban yn wreiddiol, yn ferch fferm sy'n mwynhau bywyd yng Nghymru. Mae'n dysgu Cymraeg ac yn dilyn Cwrs Uwch yn y Brifysgol ar hyn o bryd o dan ofal ei thiwtor, y Dr Elwyn Hughes. Tad Jo, Richard, oedd un o'r ffermwyr cyntaf yn yr Alban i fagu Gwartheg Duon Cymreig.

Mae Jo yn dweud fod Sam wrth ei fodd yn chwarae yn yr ardd er mae'n rhaid iddi ofalu nad ydi'n bwyta'r blodau i gyd!

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
01248 355336

*A glywaist ti'r adar yn canu
Y bore, a'r gwllith ar y llawr;
Gan ddweud fod yr haf wedi cyrraedd
I frigau hen dderi Cae Mawr.*

Mae'r uchod yn rhan o "Cynefin" gan y diweddar Gwilym Jones o Groeslon ond yn enedigol o Rhes Uchaf, Rhiwlas. Yn y gerdd mae'n sôn am y llefydd oedd yn annwyl iddo yn y pentref ac un man oedd Cae Mawr. A do, fe ddaeth y gog eleni eto i hen dderi Cae Mawr: fe gyrhaeddodd ar Ebrill 21, ychydig ddyddiau yn hwyrach na'r llynedd.

Ond yn ôl Cynrig a Carys Hughes, 'Rallt Uchaf', 'roedd y gog i'w chlywed yno yn gynharach yn y mis. Mae Cae Mawr yng nghesail Moel Rhiwen a 'Rallt Uchaf' yn hynod o agos i fynydd Moelyci, felly mae'r llecynnau gweddol uchel yma yn hoff gynefin gan y gog hefyd.

Cydymdeimlo

Dyna a wnawn â sawl un yn y pentref y mis yma.

Collodd Dilys Parry ei modryb, sef Mrs Alice Griffith o Ddinorwig yn wreiddiol, ond ers peth amser yn preswyllo ym Mryn Llifon ym Mangor.

Hefyd collodd Mrs Myra Jones, Bron y Waun, berthynas iddi, sef Mr Robert Hughes o Fethel, er ar y pryd ym Mhlas Pengwaith yn Llanberis.

Yn yr un modd cydymdeimlir â Trystan a Sioned, Brynhowel Teras - bu farw nain Trystan, Mrs Iris Owen Roberts, yn wreiddiol o Gaernarfon, yng nghartref Bryn Llifon.

Ffitrwydd

Pob nos Lun yn y Neuadd am 7.00 o'r gloch mae dosbarth cadw'n heini ar ffurf hyfforddiant cylchol, ac mae nifer yn mynychu eisoes. Am fwy o fanylion cysylltwch â Ffion ar y rhif yma -07443572998

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas

Linda oedd llywydd cyfarfod Mis Ebrill a chroesawyd Mrs Elen Lloyd Jones atom, yn wreiddiol o Lanberis ond yn awr yn byw yng Ngaerwen. Bu'n cydweithio â Linda yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a'i maes penodedig amser hynny oedd arlwy, ond eglurodd mai tecstilau oedd yn mynd â'i bryd ers yn ifanc iawn. Wedi ymddeol aeth ati i wneud bagiau a chyfareddwyr, sef y pethau a wisgir ar y pen yn hytrach na hetiau traddodiadol, ac sydd yn boblogaidd iawn ar y funud. Roedd y bagiau yn werth eu gweld ac yn edrych yn hynod o broffesiynol. Felly hefyd y cyfareddwyr, ac mae galw am y rhain ar gyfer priodasau ac amgylchiadau arbennig. Gan iddi ddysgu llawer gan ei nain a hithau o'r un enw hefyd, penderfynodd gael label arbennig i'r bagiau sef "Nel". Dangosodd inni hefyd sut y mae'n mynd ati i wneud y cyfareddwyr. Diolchodd Linda iddi ar ein rhan a diolchwyd i Annes a Helen am wneud y baned. Carys a enillodd y raffl.

Clwb Rhiwen

8 Ebrill: Cawsom baned a sgwrs, a chadarnhau trefniadau ar gyfer gweddill y tymor. Llongyfarchwyd Enid ar ddod yn hen nain i efeilliaid, sef Anni a Cêt.

Gwnaethpwyd y te gan Ann a Frances, a Gareth a enillodd y raffl.

22 Ebrill: Aethom i ymweld â Fron Goch, roedd y tywydd yn braf, a chafwyd amser da yno. Cadarnhaodd John ei fod wedi trefnu i ni fynd ar y trê bach ym Mhorthmadog ym Mis Mehefin ac rydym yn edrych ymlaen at y daith yma.

Croesair Mis Mawrth
Llongyfarchiadau i Dilys Parry ar ennill y croesair - yng Nghlwb Rhiwen mae hi a Jean Jones, sydd hefyd wedi ennill sawl tro, yn aml yn trafod y cliwiau.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes,
Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Ebrill 2015

1af Rhif 29 Thomas Perry,
Nant y Garth
2ail Rhif 43 Ann Illsley, Pentir
3ydd Rhif 03 Ella Louisa Jones,
Deiniolen

Bingo

Nos Wener, Ebrill 24ain,
cynhaliwyd noson Bingo yn y
Ganolfan, Glasinfryn. Roedd yn
noson lwyddiannus, llawn hwyl.
Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Prynhawn o Hwyl

Brynhawn Sadwrn, 4 Ebrill ,
cynhaliwyd prynhawn o hwyl yn
y Ganolfan, Glasinfryn. Cafwyd
prynhawn llwyddiannus dros ben
gyda phawb yn mwynhau gêm o
Bingo, a’r plant yn chwilota am y
cliwiau i’r Helfa Wyau. Diolch i
chi gyd am eich cefnogaeth.

Cofion

Anfonwn fel Eglwys gofion
cynnes at Mrs. Janet Rees, Pentir a
Mrs. Avrill Thomas, Rhyd Y
Groes, gan nad yw’r ddwy yn dda
eu hiechyd. Pob bendith i’r ddwy
ohonoch.

Hefyd mae'n cofion yn mynd at
Pam Jones, Llanddeiniolen, sydd
wedi treulio cyfnod yn Ysbyty
Gwynedd wedi damwain yn ei
chartref. Brysiwch wella Pam.

Garddwest

Cynhelir ein Garddwest flynyddol
ar Fai 23ain, am 1.30 y prynhawn,
yn y Ficerdy, Pentir. Bydd
amrywiol stondinau, a
chystadleuaeth agored, i’w barnu
ar y diwrnod, sef creu Gardd
Fechan dim mwy na 10 modfedd
mewn maint. Croeso cynnes i
chwi i ymuno â ni.

Bingo

Bydd noson Bingo yn y Ganolfan,
Glasinfryn ar nos Wener, Mai
29ain - y noson i ddechrau am
7.30 yr hwyr. Croeso cynnes i
chwi i ymuno yn yr hwyl.

Gwasanaethau’r Sul

Mae’r gwasanaethau am 9.45 a.m.

Mai

17 Cymun Bendigaid
17 Hwyrrol Weddi am 6.00
24 Boreol Weddi
31 Gwasanaeth ar y Cyd, 10.30yb
Eglwys Crist Glanogwen

Mehefin

15 Cymun Teuluol
14 Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chi i ymuno â
ni yn y gwasanaethau.

Tregarth

Olwen Hills
(Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth
☎ **601544**

Profedigaethau

Cydymdeimlwn fel ardal gyda theulu Mrs
Sarah Williams fu farw’n ddiweddar, sef Ron,
Ceris, Martin a Sara. Bu Sarah yn byw ym
Methesda a Bro Derfel, Tregarth. Cafodd ofal
tyner gan staff Plas Ogwen a chofiwn amdani
hi a’i phriod yn cadw siop Lorne House ym
Methesda.

Bu farw Mrs Kathleen Hughes, Bryn Celyn,
Pen y Bronnydd, Tregarth ac anfonwn ein
cydymdeimlad at ei dwy ferch a’r teulu.

Capel Shiloh

Gwasanaethau

Ysgol Sul 10.30

Oedfa 5.00

Mai

10 Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol 10.30
17 Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon
24 Parchedig Geraint Roberts, Porthaethwy
31 Diacon Stephen Roe, Porthaethwy

Mehefin

07 Parchedig Philip Barnett
14 Parchedig Gwyndaf Jones, Bangor

Daeth profedigaeth i ran dau o aelodau Capel
Shiloh, sef Valerie a David Ellis Jones, Glan
Gors, pan fu farw modryb i Val, sef Mrs
Elina Griffiths, Erw Fair, Garneddwen,
Bethesda, yng Nghartref Cerrig yr Afon, y
Felinheli.

Mae Mrs Edith Hughes, un o aelodau
ffyddlonaf a hynaf Shiloh wedi symud yn ôl i
fyw i’w chartref yn Erw Faen wedi cyfnod
yn byw ym Mro Syr Ifor tra ‘roedd ei
chartref yn cael ei adnewyddu. Gobeithio
eich bod wedi setlo i lawr yn dda yn eich cyn
gartref Edith.

Pob dymuniad da i rai o aelodau’r Ysgol Sul
fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol
yr Urdd yng Nghaerffili ar ddiwedd Mis Mai.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Mai

17 Boreol Weddi
24 Cymun Bendigaid
31 Dim Gwasanaeth

Mehefin

01 Boreol Weddi
14 Cymun Bendigaid

Gwasanaethau yn dechrau am 9.45 y bore.

Ni chynhelir gwasanaeth ddydd Sul 31 Mai
oherwydd bod plwyfolion eglwysi Grŵp
Ogwen yn mynd ar bererindod. Un
gwasanaeth fydd yn y grŵp, sef yn Eglwys
Crist Glanogwen am 10.30 y bore. Bydd y
bererindod yn cychwyn o Eglwys Sant Tegai
am 10.00 y bore.

Cynhelir y Te Bach nesaf ar ddydd Iau, 28
Mai am 2.00 y prynhawn. Dewch draw am
baned a chacen.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái.
☎ **600744**

Diolch

Dymuna Mrs. Edith Jones ddiolch am y cardiau a’r
anrhegion a dderbyniodd ar ddathliad ei phenblwydd yn
90 oed. Cafwyd parti mawr yn y Neuadd Goffa. Diwrnod
i’w gofio yng nghwmni cymdogion a ffrindiau. Diolch o
galon.

Dymuna Arthur ac Alison ddiolch i bawb am yr holl
gardiau “gwellhad buan” a’r galwadau ffôn a
dderbyniwyd pan oedd Arthur yn yr ysbyty. Diolch hefyd
i’r teulu a ffrindiau an gludiant car y Ysbyty Gwynedd a
Lerpwl. Diolch o galon i bawb!

Dymuna Iola a’r Clwb Ieuenctid ddiolch am y rhoddion a
gafwyd tuag at Bingo’r Pasg. Hefyd, diolch i dawb a
ddaeth i gefnogi’r noson. Cafwyd noson hwyliog. Bydd y
Clwb yn ail-gychwyn ym mis Medi.

Clwb y Mynydd

Cafwyd prynhawn difyr yng Nghlwb y Mynydd gyda’r
elusen Age Cymru yn cynghori’r aelodau. Cafwyd cyngor
gwerthfawr ar sut i ddelio â’r holl alwadau ffôn ffug a
gawn yn ein cartrefi. Y cyngor syml oedd i beidio ateb yr
un cwestiwn a rhoi’r ffôn i lawr.
Fel arfer, cafwyd paned a chacen a raffl cyn ymadael.

Cofion

Mae llawer o’r pentrefwyr yn wael ar hyn o bryd.
Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno adferiad i chwi!

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Gwasanaethau

Mai 17: Cymun Bendigaid
Mai 24: Boreol Weddi
Mai 31: Cymun Bendigaid - Eglwys St. Cedol,
Pentir. (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul
hwn).
Meh. 7: Gwasanaeth Teuluol
14: Cymun Bendigaid
21: Cymun Bendigaid

Dechreuir am 9.45 y.b. Croeso cynnes i bawb.

Diolch i bawb a gefnogodd y "Ffair Basg", a diolchwn
yn arbennig i'r merched am baratoi'r cawl blasus.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd -
anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Mae'r Ficer, Y
Parchedig Christina Mc Crea yn barod bob amser i
siarad ag unrhyw un o'r plwyfolion. Cysylltwch â hi ar
01248-372249 neu ag un o'r Wardeiniaid.

Marchnad Ogwen

Cynhelir Marchnad mis Mehefin at y tyrydydd ar ddeg
ar gae Sioe Dyffryn Ogwen ac nid yn ein safle arferol
yn Neuadd Ogwen.


Oherwydd diffyg lle yn y babell, nid oes Stondin
Elusen na Stondin 'Un Tro' y mis yma.

Serch hynny mae'r croeso arferol yn eich disgwyl! Mi
fyddwn yn ôl i'r drefn arferol ar Gorffennaf l1eg.

Mae gwybodaeth gyfredol am holl stondinau a threfn
y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk

Taith o amgylch y fro

Taith 12 Lôn Goed a Lôn Dinas



Cychwyn o Blas Ffrancon gan droi i'r chwith i lawr am y groeslon. Troi i'r dde a dilyn Ffordd Coetmor i gyfeiriad y fynwent. Wedi cyrraedd y groesffordd ewch syth ymlaen gan groesi Lôn Rachub a cherdded i lawr y Lôn Goed.

Ewch heibio mynedfa fferm Talysarn sydd ar y dde ac ar ôl cerdded rhyw 10 munud arall fe sylwch ar dŷ ar y chwith a ffordd drol yn mynd heibio'i dalcen. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ar y gornel. Cerddwch i lawr y ffordd am ryw 100 metr ac fe welwch giât fochyn ar y dde. Ewch drwy'r giât gan ddilyn y llwybr ar draws y cae i gyfeiriad hen Ficerdy Llanllechid. Fe aiff y llwybr a chi i lawr yr ochr isaf i'r tŷ a thrwy hen giât haearn. Cerddwch ymlaen nes cyrraedd y ffordd sy'n arwain at y Ficerdy a throi i'r dde i gyfeiriad y lôn bost.

Ymhen ychydig fe ddewch at fwthyn ar yr ochr dde a giât fochyn wrth ei ymyl. Ewch drwy'r giât yma gan ddilyn y llwybr heibio bwthyn arall sydd ar y chwith gan gyrraedd y lôn bost (A5). BYDDWCH YN OFALUS yma gan fod traffic eithaf trwm arni ar brydiau.

Croeswch y lôn yn ofalus a throi i'r dde i lawr am Bont y Pandy. Croesi'r lôn eto am gyfeiriad y tŷ gan ddilyn y palmant a chroesi'r bont. Ar ôl croesi'r bont ceisiwch weld carreg sydd yn y wal sy'n dangos y dyddiad yr adeiladwyd y bont gan Thomas Telford ym 1819. Rhaid croesi'r A5 unwaith yn rhagor i gyfeiriad Tregarth gan gerdded ymlaen am ryw chwarter milltir nes cyrraedd arwydd "Tregarth" ac arwydd gwersylla. Trowch i'r chwith ar Lôn Dinas heibio fferm Dinas a cherdded am ryw chwarter awr arni nes cyrraedd Pont a Melin Coetmor fydd i'w gweld ar yr ochr chwith.

Mae'n werth aros yma am funud i edmygu'r olygfa o'r Carneddau. Cerddwch i lawr y grisiau sy'n eithaf serth a chroesi'r bont. Wedi croesi Pont Coetmor ymunwch â'r Lôn Las sy'n mynd i gyfeiriad Bethesda.

Erbyn hyn mae'r A5 ar y chwith i chi ond ymhen ychydig bydd y Lôn Las yn mynd â chi gyda'r afon ac o amgylch y caeau rygbi.

Bydd y Lôn Las yn dod i ben yn ymyl ffatri G L Jones ond ewch yn syth ymlaen heibio'r tai sydd ar y dde. Byddwch yn cyrraedd yr A5 eto a throwch i'r dde heibio siop Londis a chroesi'r ffordd wrth yr arhosfa fws.

Cerddwch i fyny "Allt Caffi" (fe wnaiff hon roi dur yn y coesa!!) a throi i'r chwith pan gyrhaeddwch y top. Ewch heibio Ysgol Dyffryn Ogwen ac Erw Las gan droi i'r dde yn y groeslon ac yn ôl i Blas Ffrancon.

Math o daith: Eithaf gwastad (ar wahân i Allt Caffi!!)

Pellter: Tua 4 milltir

Amser: Oddeutu awr a thri chwarter

Offer: Esgidiau addas. Ffordd a llwybrau da.

Mwynhewch.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ebrill agorwyd swyddfa Plaid Lafur Arfon ym Mangor. Yn y llun ar y dde gwelir Alun Pugh (ymgeisydd y Plaid Lafur yn Arfon), Owen Smith (Ysgrifennydd Cysgodol Cymru), a Gareth Griffiths, Mynydd Llandegai.

Yng nghanol y mis cynhaliwyd Noson Cyri'r Helpwyr gyda Carwyn Jones (Prif Weinidog Cymru), a daeth Owen Smith (aelod seneddol Pontypridd) yn ôl i ganfasio yn ardal Bangor, gyda chymorth rhai o aelodau Bangor-Ogwen, gan fod Arfon yn sedd ymylol (mwyafrif o ddim ond mil a hanner o bleidleisiau i Plaid Cymru yn Etholiad 2010).

Ar ddiwedd y mis bu Alun Pugh a'i helpwyr yn enocio drysau yn Nyffryn Ogwen i roi cyfle arall i'r etholwyr gwrdd ag Alun. Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar y bedwaredd nos Fercher ym mis Mai (27ain) am 7.30 y.h.

Gair neu ddau

‘DWI’N MALIO DIM!’

Un o fanteision mawr y rhyngrwyd yw ein bod yn taro ar erthygl na fyddem wedi ei gweld pe byddem yn dal i ddarllen un neu ddau o bapurau dyddiol.

Un o anfoneision mawr y rhyngrwyd yw ein bod yn taro ar erthygl na fyddem wedi ei gweld pe byddem yn dal i ddarllen un neu ddau o bapurau dyddiol. Gwaetha'r modd.

Dyna ddigwyddodd yr wythnos ddiwethaf gydag erthygl a ysgrifennwyd gan un o golofnwyr papur newydd y Sun a oedd yn trafod y bobl a foddwyd yn nyfroedd Môr y Canoldir wrth geisio dianc o dlodi a pheryglon Gogledd Affrica i ddiogelwch a gobaith yr Eidal a gwledydd Ewrop. Swm a sylwedd (er bod y gair ‘sylwedd’ yn gwbl anaddas) yr erthygl oedd nad oedd yr awdur yn poeni dim oll am y bobl hyn. O glywed am y bobl a fu farw, ac o weld y cychod a'r cyrrff, geiriau croch a chiaidd y colofnydd oedd ‘Dwi’n malio dim.’ ‘No, I don’t care.’

Mae’n anodd credu bod unrhyw un yn medru bod mor galon galed, mor ddibris o eraill, ac mor barod i ddatgan nad yw’n gweld unrhyw werth o gwbl i fywydau pobl. Pa ots bod miloedd o bobl wedi boddi wrth ffoi o’u gwledydd eu hunain i ddiogelwch a gobaith posibl yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yn unig? ‘I don’t care,’ meddai'r wraig hon. Yr unig ateb i'r ‘broblem’ yn ôl hon yw anfon llongau rhyfel i saethu at y bobl yn y cychod a'u hanfon nôl adref. Pa ryfedd bod 200,000 o bobl wedi arwyddo deiseb o fewn ychydig ddyddiau yn galw ar y papur newydd i gael gwared â'r colofnydd?

Anghofiwch am eiliad yr holl ddadlau a'r gwahanol bolisiau'n ymwneud â mewnfudo i'r gwledydd hyn. Yr hyn a gaed yn yr erthygl hon, a'r hyn a gythruddodd gymaint o bobl a'i darllenodd neu a glywodd amdani, oedd y datganiad digywilydd a didostur y colofnydd nad yw marwolaeth miloedd o bobl o bwys o gwbl iddi. (Er tegwch, mae'n debyg i'r erthygl gael ei llunio cyn iddi glywed am y gwaethaf o'r digwyddiadau eleni pan foddwyd oddeutu 900 o bobl wedi un cwch suddo'r dydd o'r blaen. Ond mae'n debyg hefyd na chafodd hyd yn oed hynny effaith arni, a'i bod er mawr gywilydd wedi glynu at yr hyn a ysgrifennodd.)

Ydi, mae’n anodd credu bod neb mor galon galed. Ac eto, nid yn amhosibl. Oherwydd onid yr hyn a gafwyd yn yr erthygl oedd prawf diamheuol o'r hyn a ddywed y Beibl am y galon ddynol, sydd yn ei hanfod yn ddrwg ac felly'n amddifad o gariad at Dduw ac o dosturi at eraill? Mae pobl yn medru ysgrifennu a dweud a meddwl fel y wraig hon am eu bod – yng ngeiriau'r Beibl – yn bechaduriaid sydd wedi cefnu ar Dduw. A chan mai dyna yw pob un ohonom, gweddiwn am y gras i fod yn wahanol i'r wraig hon, gan wneud popeth a allwn i dosturio wrth eraill a'u caru a'u hymgeleddu, beth bynnag eu hamgylchiadau a'u hanghenion.

Y PARCHEDIG JOHN PRITCHARD



Alun Pugh (ymgeisydd y Plaid Lafur yn Arfon), Owen Smith (Ysgrifennydd Cysgodol Cymru), a Gareth Griffiths, Mynydd Llandygái.

FY NHRYSOR I

Gan Andre Lomozik

Pob mis mae criw ffyddlon, ynghyd ag aelodau o wahanol gymdeithasau, yn dod i Ganolfan Cymdeithasol y Cefnfaes i blygu Llais Ogwan. Erbyn diwedd y noson mae tua mil pum cant o gopïau'r Llais wedi eu casglu at ei gilydd ac yn barod i'w dosbarthu o amgylch y Dyffryn, a thrwy'r post, i bedwar ban y byd. A chymryd ar gyfartaledd bod tri pherson yn darllen un copi bob mis mae hynny yn golygu fod tua phedair mil a hanner yn ei ddarllen yn gyson. Pe bai un o bob cant yn meddwl am rywbeth sydd yn drysor personol iddynt, ac yn fodlon ysgrifennu pwt, ac anfon llun yn ogystal, i'r Llais, byddai hynny yn golygu bod bron i hanner cant o erthyglau yn gallu ymddangos yn y Llais o fis i fis. Ni fyddai'r trysor yn gorfod bod yn werthfawr o ran arian, nag yn fawr o ran maint, dim ond bod stori fach ddiddorol yn perthyn iddo.



Felly dyma gychwyn ar fy nghais am eich trysor chwi, trwy adrodd dipyn o hanes rhywbeth sydd yn werthfawr i mi, sef tlws a enillodd fy nhad mewn cystadleuaeth sgïo yng ngwlad Pwyl yn 1938, pan oedd tua ugain oed. 'Roedd yn golygu ei fod yn gorfod sgïo i lawr y mynydd 'slalom' yn ogystal â neidio oddi ar y 'ski jump'. Rhoddwyd y wobwr gan gwmni pwl glo o ardal Silesia, yn ne orllewin Pwyl. Ar droed y tlws mae'r geiriau yma wedi eu hysgrifennu. "Nagrodo H. K. N. Katowice, Harcerskie Mistrzostwa, Narciarskie Polski. Zwardoń 12/13/II/1938". (Sef, yn fras iawn, Gwobr Pencampwriaeth Sgïo Sgowtio gwlad Pwyl, gan H. K. N. Katowice, 12/13/ Chwefror 1938.)

Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, fe chwalwyd bywyd fy nhad, fel miliynau o fywydau eraill tros Ewrop a'r byd, pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd allan. Ni welodd fy nhad ei gartref, na'i gyfeillion sgïo am bron i chwarter canrif wedyn, ac 'roeddwn i yn saith neu wyth oed pan ddaeth fy nain draw i aros gyda ni am gyfnod byr. Lladdwyd fy nhaid yn ystod y rhyfel mewn damwain wrth weithio ar y rheilffordd fel gyrrwr trên. 'Roeddwn i yn un ar ddeg oed cyn cael teithio i wlad Pwyl i weld Ustron, y pentref lle y magwyd fy nhad, a dyna pryd y cafodd fy nhad ddod â'r tlws, ac ychydig o fanion eraill, adref i Fethesda efo ni, i'w atgoffa o ddyddiau ei ieuencid. Dyna paham mae'r tlws sgïo yn drysor i mi. Nid yw o werth ariannol, ond mae'n fy nghysylltu i â'm gwreiddiau yn ôl yng ngwlad Pwyl.



Dad. Rhif 12.

Cofiwch, os oes gennych chi drysor, beth am ei rannu gyda darllenwyr y Llais. Anfonwch eich defnydd yn syth i'r Llais, trwy law'r golygyddion.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Llandygai yng Nghanolfan Tregarth ar Ebrill 16eg.

Trafodwyd y blerwch sy'n cael ei adael ar y cae pêl droed yn Nhregarth ar ôl iddo gael ei ddefnyddio gan rhai timau ac felly penderfynwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio datrys y broblem. Trafodwyd hefyd y piler llechi a gafodd ei ddwyn rhwng Mynydd Llandygai a Rhiwlas, hwn oedd yn gwahanu Stad y Penrhyn a Stad Faenol. Mae adeiladwr lleol wedi cynnig rhoi'r piler newydd yn ei le ac mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn iddo am ei gynnig hael.

Daeth y newyddion trist na allai'r contractwr Tryfan Agri barhau i drin y llwybrau ym mhlwyf Llandygai ac felly bydd rhaid chwilio am contractwr arall. Diolchodd y Cyngor am waith caled Mr Hughes dros y blynnyddoedd. Mae'r broblem baw ci yn parhau yn yr ardal ac mae'r Cyngor Cymuned yn gweithio gyda'r Cyngor Sir i leihau'r broblem ac i hybu pobl yr ardal i lanhau ar ôl eu cŵn.

Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod misol y cyngor yng Ngorffwysfan ar ddiwedd mis Mawrth. Trist oedd clywed bod clerc y tri chyngor wedi penderfynu ymddiswyddo ond da oedd clywed bod Partneriaeth Ogwen yn bwriadu rhoi mwy o oriau i'r clerc newydd i wneud y gwaith.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â chwarel y Penrhyn ynglŷn â phlacc Caellwyngrydd a hefyd i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â baw ci ar hyd y stryd fawr. Gofynnwyd iddi hefyd gysylltu gyda'r heddlu parthed sefyllfa parcio ger Ysgol Pen y Bryn.

Da oedd clywed bod 40 o fasgedi crog wedi'u harchebu er mwyn eu dosbarthu ymysg y siopau ac efallai hefyd yn Llys Dafydd. Da hefyd oedd clywed bod dau dŷ fforddiadwy yn Llwyn Bedw wedi cael caniatâd cynllunio.

Bu sawl penderfyniad yn y cyfarfod. Penderfynwyd trafod y rheoliadau ariannol yn y cyfarfod nesaf, a phenderfynwyd hefyd nad oedd gwrthwynebiad i estyniad ym Mhen y Graig, ac y bydd y Cyngor yn hapus i dalu costau treuliau cynghorydd i fynd i gyfarfod ym Metws y Coed ynglŷn â diwygio llywodraeth leol. Penderfynwyd gwneud trefniadau i glirio cylfat Llys Dafydd yn rheolaidd, ac i wahodd heddwas i'r cyfarfod nesaf.

Cafwyd apêl gan Bartneriaeth Ogwen am bobl gyda phrofiad cyfreithiol, peirianyddol ac ariannol i helpu gyda'r prosiect Hydro.

Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIDDYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o lunlau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Llwyau Caru LLEW TUDUR

Artist Cymreig sy'n cerfio
llwyau caru unigryw i
ofynion y cwsmer

07775 520657

www.llwyaucaru.cymru
Bethesda

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.

Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.

*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau*

Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

D. Hughes a S. Roberts

Seiri Maen

Bob math o Waliau Cerrig
Ffensio : Tirlunio

Ffôn : 07766 895352

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1908 i 1916

1907

07/01/1907John Isaac Morris, Gray St., yn cael ei ladd ym Mhantdreiniog yn 26 oed.

28/02/1907 (Iau): Y Parchedig Rhys J. Huws yn cynnal Eisteddfod y Plant – y gyntaf – ym Methesda. Mihangel ap Rhys, Bangor, yn cael y Goron, John Parry, Pen-y-Graig, yn cael y Gadair.

09/07/1907: Y Brenin Edward VII yn mynd drwy'r pentref.

15/11/1907: Agor ‘Ysgol Gyngor y Cefnfaes’ yn swyddogol gan yr aelod seneddol William Jones. Cyflwynwyd ‘Cerdyn Cof’ i bob un o ddisgyblion yr ysgol i ddathlu’r achlysur.

Cyhoeddi Y Gwylwr, papur newydd Dyffryn Ogwen.

W. J. Parry yn cyhoeddi ei gofiant cynhwysfawr i’r Parchedig Rowland Williams (Hwfa Môn)

Marw George Sholto Douglas Pennant.

1908

1908: Eisteddfod y Plant ym Methesda. Henry Parry, Pen-y-Graig, yn cael y Goron, John Parry, Pen-y-Graig, yn cael y Gadair. Dros 600 yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

03/1908: Cyhoeddi rhifyn cyntaf cylchgrawn Ysgol y Sir, The B.C.S.

10/04/1908 (Sadwrn): ‘John Morris, Caellwyngrydd (Coch) yn cael ei ladd ym Mhantdreiniog.’

1909

04/07/1909: Y Farchnad/Neuadd yn llosgi’n ulw. Agorwyd Marchnad a Neuadd newydd ym Methesda

11/05/1912. Cyfarfod Llenyddol St Ann. Richard Roberts yn ennill ar draethawd ar ‘Hanes yr Eglwys dan y Chwarel, sef hen Eglwys St Ann, Bethesda’, a gyhoeddwyd yn llyfryn gan Jarvis & Foster, Bangor.

1910

Adeiladu tŷ – Neuadd Wen – ar gyfer prifathro Ysgol y Sir.

1911

Codi Eglwys Goffa Robertson yng Nghoetmor (y drws nesaf i Fynwent yr Ymneilltuwyr) – cangen o Eglwys Glanogwen. Lladdwyd Charles Donald Robertson, ‘youngest son of Charles Boyd Robertson and of Adelheid, daughter of Arnold Von Rabe, of Lesnian, Prussia, and grandson of the Rev. F. W. Robertson, of New Brighton’ ar y Gludair Fach, 25/03/1910’, ac fe’i claddwyd yng Nghoetmor. Rhoes ei deulu arian i godi’r eglwys er cof amdano. Codwyd yr Eglwys gan gwmni adeiladu Harold Hughes.

1912 (tua)

Cyhoeddi The Borough Guide to Bethesda (‘issued under the auspices of the Bethesda Urban District Council and the Bethesda Advertising Committee’).

1912

11/05/1912: Agor Marchnad a Neuadd newydd ym Methesda ar ôl i’r adeilad blaenorol gael ei ddifa gan dân (04/07/1909).

Ysgol Tyn-tŵr yn cau fel ysgol ddyddiol a’r plant yn trosglwyddo i Ysgol Glanogwen. Ysgol y Bechgyn, Glanogwen, yn troi’n Neuadd yr Eglwys (Church House).

Jerry M, ceffyl ras Assheton Smith, Y Faenol, yn ennill y Grand National. Pan welwyd gwagenni’n gwibio o un ochr i’r llall ar draws twll Chwarel y Penrhyn ar raff weiren, dyma alw’r system yn Jerry Ms.

1913

Mawrth 29 ac Ebrill 2, 1913: Cwmni Drama Bethesda yn perfformio ‘Aelwyd Angharad’ yn y Neuadd Gyhoeddus ac ar Dachwedd 21 a 22, 1913, yn Theatr David Lewis, Lerpwl.

02/09/1913 (Mawrth): Cerbyd Modur (Llannerch-y-medd) yn dechrau rhedeg i Fangor a Bethesda.

03/10/1913 (Gwener): Bazaar Capel y Carneddi.

1914

Marw’r chwarelwr/arlunydd John Parry (Ap Idwal). Ganed ef yn Chwarel Goch. Bu’n byw am flynyddoedd yn 57 Ffordd Carneddi a’i wraig yn cadw siop fechan yn gwerthu popeth. Roedd ganddynt chwech o blant. Bu John Parry farw yn Wycrws Bangor a chladdwyd ef ym Mynwent Coetmor, lle nad oes dim i nodi ei fedd.

1914-1918

Gwaith Gwau’n cael ei gynnal er budd y milwyr yn y Clwb Unedig ym Methesda.

1916

08/03/1916: Dros 1000 o bobl yn bresennol yng Nghyngerdd Ysgol y Cefnfaes yn y Neuadd Gyhoeddus.

I’w barhau

Yn Eisiau

Mae Cyngor Llandygai yn chwilio am wasanaeth trin llwybrau. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Siop Ogwen: 01248 602131

Golygydd mis Mehefin fydd Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW. 01248 601592. Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 3 Mehefin, os gwelwch yn dda.

SIOPAU DYFFRYN OGWEN

(TUA 1956 – 2000) - Rhan Olaf
Gan David Elwyn Pritchard

CARNEDDI

Siop Gigydd – Emrys Hughes
Siop Sgod a Sglod – Sturrs
Siop Cet
Gertrude
Harriet
Siop Groser – Sheffield Stores
Siop Groser – Siop Foster’s

GERLAN

Siop William Hughes, Crydd
Siop Groser – Mr Plews
Siop Groser – Mrs Bate
Siop Gigydd – Richard (Dic) Jones
Siop Sgod a Sglod – Anthony a Jennie
Siop Lenny ... Siop Spar

RACHUB

Swyddfa’r Post a Siop Groser
Siop Bapurau Newydd
Siop Blades
Siop Twm
Siop Jackie Edwards
Siop Elin Pritchard
Siop Dickie Bwtsiar
Siop Sgod a Sglod
Siop Siop Sgod a Sglod
Siop Gruff

PONTŴR

Siop Pontŵr – Siop a Becws (Edward Jones ac Edward Llewlyn)

TANYSGAFELL

Siop To Sinc

TREGARTH

Siop Alf Pritchard
Moss – Crydd
Siop Gigydd
Co-op
Siop Moi (Braich)

MYNYDD LLANDYGAI

Swyddfa’r Post a Siop Groser
Co-op

POBYDDION

Moi ... Geraint
John Robert
O. J. Williams
Lei ... Seymour
Trefor Hughes
Anthony ... Huw
Bathers (hen Springford House)
Tomi Thomas ... Islwyn
Siop Treflan
Siop Rose
Wili Eric (Davies) yn y Gerlan
Becws Pontŵr
Jones, Siop Sheffield

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. **JR**
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

Siop Ogwen

Cownter Gwasanaethau

Dydd Llun 10.00-4.00: Cymorth i Ferched

Dydd Llun 9:30-11:30: Banc Bwyd (Derbyn Talebau)

Dydd Mawrth 10.00-2.00: Wardeiniaid Ynni

Dydd Mercher 12.00-2.30: Banc Bwyd (Dosbarthu Bwyd)

Siop Grefftau ar agor Llun - Sadwrn

01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

TRYDANWYR

D&S electrical

CONTRACTWYR TRYDANOL

07551 06 32 81 / 07506 43 25 10

BETHESDA

Am unrhyw waith trydanol cysylltwch â Dylan neu
Steffan. Prisiau di-guro.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Côr Meibion y Penrhyn

Y côr yn gwneud ei farc efo 9Bach

Pan aeth aelodau’r côr i lawr i Gaerdydd i ganu gyda’r grŵp gwerin 9Bach o Fethesda yn ystod noson gyflwyno gwobrau Radio 2 i’r grwpiau mwyaf llwyddiannus, ychydig feddyliodd neb y buasai 9Bach yn ennill y wobr am yr albwm gorau drwy holl wledydd Prydain. Hefyd, ychydig feddyliodd y byddai’r côr yn ennill edmygwyr ar draws y byd ar Trydar, Facebook ac ar y radio am y perfformiad yn y gân Ffarwel fel cefnogwyr i’r band. Roedd rhai sylwebyddion fel Martin Carthy, y canwr cerddoriaeth draddodiadol enwog, wedi gwirioni gyda chyfraniad y côr. Wrth sgwrsio gyda Cerys Mathews a Frank Hennessy ar Radio 2 yn dilyn y perfformiad oedd yn cloi’r seremonïau, fe ddywedodd Martin mai dyna’r peth gorau roedd o wedi ei glywed y noson honno.

Roedd Lisa Brown, y gantores o’r Gerlan sy’n brif leisydd i 9Bach hefyd wedi gwirioni ac meddai, “Mae’r ymateb i berfformiad y grŵp a’r côr wedi bod yn ‘boncysr’ heno ac mi fyddwn ni’n cofio’r noson yma am flynyddoedd.”

Roedd Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd yn llawn i’r ymylon ar y noson a braint i’r holl aelodau, yn hen a newydd, oedd cael perfformio mewn awditorïwm mor fawr a phwysig. Gallwch wrando ar y perfformiadau ar BBC iPlayer. Wele isod lun o Lisa Brown, Mirain Haf a’r côr yn perfformio gyda’r band yng Nghaerdydd



Yr Extravaganza yn Llandudno

Ar y penwythnos cyntaf yn y mis bu’r côr yn perfformio yn y sioe fawr flynyddol sy’n mynd dan yr enw Victorian Extravaganza yn Llandudno. Perfformiad awyr agored oedd hwn ac fel arfer fe ddenodd cyflwyniadau’r bechgyn o dan arweiniad egniïol ac ysbrydoledig Owain Arwel a Fran Davies wrth y piano edmygedd o bob cyfeiriad. Cyn y prif berfformiad cyflwynwyd perfformiad ‘fflach-dyrfa’ arall a llwyddwyd i werthu nifer fawr o gryno-ddisgiau ac o docynnau ar gyfer y cyngerdd yn Venue Cymru gyda band Black Dyke.

Tocynnau ar gyfer cyngerdd mwya’r flwyddyn yn mynd fel slecs
Soniwyd uchod am y cyngerdd gyda band byd-enwog Black Dyke ac mae mynd da arnyn nhw. Os nad ydych chi wedi archebu eich tocyn eto cysylltwch ar unwaith gyda Walter Williams ar 01248 601167 neu drwy e-bost ar waltermenai@yahoo.co.uk <<mailto:waltermenai@yahoo.co.uk>>
Mae’r tocynnau ar gael am £20 neu £17.50.

Cymeriadau’r Côr

Cyfres yw hon sy’n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Idwal Jones sy’n drefnydd gwyliau a theithiau wrth ei alwedigaeth.



- 1 Be’ ydy dy enw llawn? Idwal Lloyd Jones
- 2 Oed? 69
- 3 Lle wyt ti’n byw? Waen Wen
- 4 Un o le wyt ti’n wreiddiol? O Gwm Penmachno.
- 5 Pa dri pheth fasa’n dy ddisgrifio orau? Mwynhau bywyd, Hoffi cwmni, Hael.

- 6 Ers faint wyt ti’n aelod o’r côr? Ers yn agos i ddeugain mlynedd
- 7 Pa lais wyt ti? - Bas 1 neu Fariton.
- 8 Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Cael fy mherswadio gan aelod.
- 9 Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? Y Greadigaeth, trosiad i’r Gymraeg o The Creation gan Willy Richter.
- 10 Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Tom Gwanas.
- 11 Beth ydy dy farn di am ganu pop? Dwi’n mwynhau llawer o ganeuon diweddar.
- 12 Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo’r Côr? Mynd am bicnic i’r Fforest Ddu pan aeth y côr ar y daith gyntaf i’r Almaen.
- 13 Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i’r côr? Carafanio a mwynhau bod yng nghwmni’r wyrion.
- 14 Oes yna rywbeth faset ti’n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Mi faswn i’n hoffi gweld y côr yn ail afael mewn cystadlu.

Y Boncathod

Mae parti canu’r Boncathod wedi cael aelod newydd, sef Angharad Morris o Bont y Tŵr. Daw Angharad yn wreiddiol o Lanberis ac mae’n athrawes yn Ysgol y Graig, Llangefni. Croeso mawr, Angharad!



Y Boncathod (gydag Angharad yn y blaen) yn ymarfer yn nhafarn y Douglas, Bethesda.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Croesair Mai 2015

AR DRAWS

- 1 Coediwr adeiniog (6)
- 4 Un o'r blasau anhyfryd (5)
- 8 Os yn ôl ynghanol mwg, efallai y gwelwch y planhigion bychan (5)
- 9 Gwaetha'r modd (7)
- 10 Os heb ddechrau cysgu na gweld diwedd y bore, gallwch gadw'r yd (7)
- 11 "Gwenni aeth yn fore i ----" (cân werin) (4)
- 12 Efallai fod Gwenni wedi cael peth o hwn i frecwast cyn 11 Ar Draws (3)
- 14 Tu mewn iddo (4)
- 15 BBC Cymru i ni, ond BBC beth i'r Sgotiaid ? (4)
- 18 Amcan (3)
- 21 Waeth i mi heb ag ymdrechu; mae rhan ohonof fi yn oer (4)
- 23 Brwydrodd (7)
- 25 Ffrainc 1789, Iwerddon 1916, Rwsia 1917 (7)
- 26 Dechrau yfed cyn i'r gwas meddw orffen gwneud y gwin cartref yma (5)
- 27 Ei drechu fel pe baech wedi ei fwrw i'r ddaear (?)
- 28 Un sy'n torri'r chweched gorchymyn (6)

- 6 Cyfnod Islwyn Ffowc Elis yng Nghymru Fydd (6)
- 7 Yr hyn a wneir i ddifwyno a hagra'r amgylchedd (5)
- 13 Gwagio'r lori efallai (8)
- 16 Swnio fel cymar i ferch, wedi ei hennill (7)
- 17 Babi'r twlc (6)
- 19 Yn meddu ar nodweddion gwrywaidd (5)
- 20 Rhoddodd ei air (6)
- 22 Mae dechrau 6 I Lawr ynghanol cefn fy chwaer yn rhoi perthynas arall i mi (5)
- 24 Ychwanegu at ei gilydd (4)

ATEBION CROESAIR
EBRILL 2015

- AR DRAWS 1 Cyffredin, 5 Haig, 8 Tybaco, 9 Bala, 10 Bri, 12 Ofn, 13 Ychwaneg, 15 Offa, 17 Leusa, 18 Dof, 19 Esmwytho, 20 Gem, 22 Erw, 24 Gini, 25 Starts, 27 Nico, 28 Cylchdroi
- I LAWYR 1 Clwb, 2 Ffitio, 3 Ei Benblwydd, 4 Inc, 6 Atalnod, 7 Gwallgofi, 11 Gwladgarwch, 13 Ymuno, 14 Goresgyn, 16 Almanac, 21 Mesur, 23 Wedi, 26 Try.

1		2		3				4		5		6
						7						
8						9						
10									11			
						12		13				
	14							15		16		
17				18		19						20
21		22				23						
				24								
25								26				
27								28				

Atebion erbyn 29 Ebrill i ‘Croesair Mai’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

I LAWYR

- 1 Derbyn neu ddwyn (6)
- 2 Nwy hanfodol i ni (7)
- 3 Siawns na fyddai'r dynion crefyddol yn euog o sigo neb (8)
- 4 Crys ----, yn aml gyda chwfl (hood) i roi dros y pen (4)
- 5 Adeni (anagram) (5)

Yr unig wallau a gafwyd yng nghroesair Ebrill oedd ‘gwladgarol’ a ‘gwladgarwr’ yn lle ‘gwladgarwch’ ; ‘tyw’ a ‘tro’ yn lle ‘try’ ; ‘chwyldroi’ a ‘gogrdroi’ yn lle ‘cylchdroi’. Gan y canlynol y derbyniwyd atebion cywir : John a Meirwen Hughes, Abergele; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Myra E. Evans, Niwbwrch; Jean Hughes, Barbara Jones, Talybont; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Ellen Whitehouse, Birmingham; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Vaughan Jones, Derek a Mai Jones, Rhiwlas; E. E. Roberts, Llanberis; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Rita Bullock, Ann Carran, Bethesda.

Yr un sy'n cipio'r wobr a'r clod y mis yma yw Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion. Da iawn.

CHWILAIR MAI 2015

Englynion a Phenillion

A	A	N	E	S	C	O	L	G	Y	S	N	W	A	D	W	F	S	H	R
I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	B	H	E
I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	R	N	A
P	A	F	F	O	S	Y	D	D	U	Q	U	S	O	F	R	P	I	Y	Q
T	T	N	A	L	H	P	I	A	N	E	W	R	E	D	D	Y	G	O	Z
Y	G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	G	L	T
D	F	D	X	U	P	W	R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	C	G	E
D	E	G	E	O	M	H	E	P	T	T	C	B	B	C	U	U	L	I	J
Y	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B	B	F	R	F	O	G	I	S	J
N	C	Y	F	R	I	N	A	C	H	A	U	V	U	I	I	R	N	R	R
W	X	I	M	H	T	T	O	S	K	O	P	W	H	R	C	M	I	I	K
R	Y	T	A	D	A	R	M	A	B	C	B	O	T	R	C	X	O	A	V
R	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	R	H	B	C	W	D	O
S	C	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	E	B	W	T	E	A	X
M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	B	F	E	R	Z	G	Q
R	B	R	O	R	C	H	W	A	R	E	L	I	A	O	C	T	D	Y	G
W	S	D	Y	R	T	S	Y	R	A	U	A	I	R	O	T	S	L	Z	E
B	E	A	J	K	F	A	H	Y	T	J	C	L	N	L	R	V	O	G	J
P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X	E	U	G
H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K

Yn y chwilair y mis yma mae deuddeg o ENGLYNION A PHENILLION gan Dafydd Morris, sydd wedi ymddangos yn Nyth y Gân yn y Llais. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i wrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythre).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Mehefin 1af . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Rwyf wedi rhoi enwau englynion a phenillion gan Dafydd Morris, sydd wedi ymddangos yn Nyth y Gân, Llais Ogwan, tros y blynyddoedd i'ch diddori y mis yma. Union yr un faint ohonoch wedi cael yr atebion cywir eto'r mis diwethaf, gydag enwau Sir Gaernarfon, ond dim yr un rhai.

Dyma atebion Ebrill:- Aberdesach: Abergwyngregin: Beddgelert: Bethesda: Bontnewydd: Caeathro: Chwilog: Cwm y Glo: Deiniolen: Efail Newydd: Garndolbenmaen: Rhaeadr Aber. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; John a Meirwen Hughes, Abergele; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli; Doris Shaw, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan, Caernarfon; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn; Rosemary, Williams, Tregarth.

Enillydd Ebrill oedd:- Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

Theatr Bara Caws
yn cyflwyno

NO WÊ

gan Barry 'Archie' Jones
yng
NGHLWB RYGBI BETHESDA

Nos Wener a Nos Sadwrn,
31 o Orffennaf a 1 o Awst am 7.30.
Tocynnau £8.00 –
ar gael gan Linda Brown (01248 601526)
neu Huw Waen (01248 602480)

Mae feirws ar led, mor bwerus gallai ddileu'r We Fyd
Eang ar ei union! Bydd y drwgweithredwr yn datgan ei
fwriad awr cyn cychwyn y sioe.
Mae Judi Stench, pennaeth Mi69 yn galw ar James
Bondage am help, a gyda chymorth ei ysgrifenyddes,
Miss Moneysot, asiant Double D. o Wasanaethau Cudd
Gwlad Thai a'r brodyr Brigyn.
60 munud yn unig sydd gan Bondage i ddarganfod pwy
sy'n gyfrifol, ac achub y We.


Yr actorion: Iwan Charles, Llyr Evans,
Gwenno Elis-Hodgkins, Maldwyn John, Catrin Mara
Cyfarwyddwr: Barry 'Archie' Jones

Yn teithio o amgylch Cymru 30 o Fehefin – 1af Awst ac
yna yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod – Nos Fawrth 4
Awst Hyd at nos Wener 7fed o Awst (Drysau yn agor am
7.00 sioe yn cychwyn am 8.00) – Neuadd Bentref Meifod.

Elw'r nosweithiau ym Methesda ar 31 o Orffennaf a 1 o
Awst tuag at Caban Gerlan ac Apêl Eleanor Jones.

MEHEFIN / JUNE	 NEUADD OGWEN		
	5	Ffilm KURT COBAIN: MONTAGE OF HECK (15)	7/7.30pm £5
	6	Ffilm Plant NIGHT AT THE MUSEUM: Secret of the Tomb (PG)	11am £3/5
	6	Bore Coffi TALGAI	7.30pm -
	6	Electro ARMS & SLEEPERS(Boston), IFAN DAFYDD, CARW	7.30pm £10/8
	13	Gig Sioe Ogwen BRYN FON, CALFARI	7.30pm £10
	19	Gig FRESCHARD, STANLEY BRINKS, SUE DENIM	7.30pm £10/8
	20	Ffilm Plant WATERSHIP DOWN (U)	11am £3/5
	26	Ffilm ROBOT OVERLORDS (12A)	7/7.30pm £5
	27	FFAIR CREFFTAU BETHESDA	9.30am am ddim
	27	Bore Coffi EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN	10am -
	Ffilm - drws/door 7pm & Ffilm 7.30pm		

NEWISIO



RAPFL

JOHN
OGWEN

SIOE UN DYN

CLWB CRICED BETHESDA 29 MAI

TOCYNNAU - £6.00 7.30pm

ar werth yn siop ogwen, bethesda

S4C



Parch

9.00
31 Mai

Ffydd. Gobaith. Cariad.
Cyfres ddrama newydd.

#parch
s4c.cymru



Telynores Eryri

Dwi mor falch fod Andre Lomozik wedi rhoi trefn ar ei gasgliadau o hen bethau a lluniau! Pam medda' chi? Wel i 'hogan o Feddgelert' Anti Edith oedd Telynores Eryri, Edith Evans ac Edith Cwmcloch i mi. 'Doedd hi yn perthyn yr un dim, ond yn ffrind agos i Nain ac yn dod i'n tŷ ni yn eithaf aml "yn y moto" fel y dywedai.

'Roedd yn byw gyda'i chwaer Anti Grace yn Eryri Wen - tŷ oedd yn enwog am ardd go arbennig, yn enwedig y llwyni blodau yn y gwanwyn. Doedd dim posibl gweld yr ardd lysiau o'r lôn fawr, ond gallaf eich sicrhau fod honno yn un ardderchog hefyd. A dyna i chi un o rinweddau Anti Edith. Gallai balu fel dyn a chofiaf iddi gael benthgyn gwn gan Dad neu Taid i saethu gwiwer lwyd oedd yn amharu ar ei gardd un tro!

'Roedd yn gallu gwnïo yn arbennig o dda. Cofiaf iddi gael y swydd o wneud y penwisgoedd o les euraidd y mae'r merched sy'n cario'r Aberthged a'r Corn Hirias yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn eu gwisgo. Dwi'n cofio'n dda iddi adael i mi wisgo un ohonynt un waith a dyna wefr! Tybed os mai'r un rhai sy'n dal i fodoli.

Cân actol neu gân ddisgrifiadol oedd dawn arbennig Anti Edith ac mae'n siŵr mai'r un mwyaf enwog oedd ei phortread o hen grwydryn - neu "Gân y Tramp" fel y dywedai hi. Byddai'n smocio cetyn go iawn ar y llwyfan er na chofiaf i erioed ei gweld yn smocio.

Cof plentyn sydd gen i o Gôr Telyn Eryri ond gan fod Telynores Maldwyn yn Anti Nansi go iawn i mi, byddai digon o sôn amdanynt yn tŷ ni. Byddent fel côr yn gwneud llawer o waith i ENSA sef Entertainment National Service Association oedd yn diddori milwyr yn ystod yr ail ryfel byd heb son am y Nosweithiau Llawen ledled Cymru!

Ond y cofion gorau sydd gen i o Anti Edith oedd ei dawn siarad a dweud storïau. Am ryw reswm na wn i ddim pam 'Jano' y byddai yn fy ngalw i bob amser - yn aml "Jano hogan...." Ond mae'n siŵr mae'r cof gorau un oedd y chwip o barti Nadolig y byddai hi a'i chwaer Anti Grace yn ei roi i blant y pentref bob Nadolig!



Dyma lun go arbennig o Delynores Eryri (ar y chwith) a Thelynores Maldwyn gyda Bob Owen a Carneddog

Dyma sydd ar y tu ôl -



'Olive' ar y chwith oedd mam. Elen Eryri ar y dde oedd Elen Ann Hughes, chwaer Edith

"Carneddog a Bob Owen Nansi a Edith. Y tro olaf i Garneddog fod ym mhentref Beddgelert. Medi 11 1935"

Jan Jones, Erw Las

Amser Maith yn Ôl



Llun a anfonwyd gan Alan Davies, Porthaethwy, o fechgyn llwglyd y tu allan i'r ffreutur yn Ysgol Dyffryn Ogwen ym 1956:

Rhes Gefn: Alan Puw, Selwyn Jones (Barbar), Bob Mered, Aeron Roberts.

Rhes Flaen: Raymond Parry, Alan Davies, David McCarter, Dafydd Evans, John Roberts.

Plant yn dysgu gwersi amgylcheddol

Mae disgyblion Dyffryn Ogwen ymhlith yr ysgolion cynradd ledled Gwynedd a gafodd gyfle yn ddiweddar i fwynhau sioe deithiol ar faterion amgylcheddol gan y diddanwyr poblogaidd, Y Brodyr Gregory. 'Roedd y sioe, a gefnogwyd gan brosiect Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, yn tynnu sylw at nifer o faterion amgylcheddol lleol fel cael gwared â sbwriel a gwm cnoi, pwysigrwydd 'bagio a binio' baw cŵn, ynghyd â'r angen i arbed, ailgylchu ac aildddefnyddio nwyddau. 'Roedd y perfformiadau gan Adrian a Paul Gregory, gyda help y ddau fasgot amgylcheddol, Ted Taclus ac Eli Eco, yn cyfleu'r negeseuon mewn ffordd ysgafn a difyr. Cafodd disgyblion ysgolion Pen y Bryn a Thregharth gyfle i fwynhau'r sioe yn dilyn taith debyg y llynedd.



Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, sy'n gyfrifol am yr Amgylchedd ar Gabinet Cyngor Gwynedd: "Dylai edrych ar ôl yr amgylchedd lleol chwarae rhan bwysig bob amser yn addysg unrhyw blentyn. Mae'r sioe deithiol ddifyr a llawn dychymyg wedi ymweld â nifer mawr o ysgolion eisoes mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd y negeseuon cadarnhaol hyn yn cael effaith parhaol, mewn ysgolion, ar y strydoedd ac yn y cartref. Trwy godi ymwybyddiaeth y genhedlaeth iau o faterion amgylcheddol hanfodol bwysig byddwn yn ddiamheuol yn helpu sicrhau dyfodol glanach, gwyreddach ac iachach i bawb." Meddai Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Gwyn Neale: "Mae'r Sioeau Teithiol wedi bod yn un o gynlluniau mwyaf poblogaidd Trefi Taclus yng Ngwynedd. Ein gobaith ydi y bydd y plant yn mynd â'r negeseuon adref i rieni a'r gymuned ehangach. Rydan ni rŵan yn edrych ar weithgareddau pellach o fewn yr ysgolion i'w hannog nhw i gynnal eu harolygon amgylcheddol lleol eu hunain a threfnu casglu sbwriel ac ati."

Ychwanegodd Adrian Gregory: "Roedd yn hwyl fawr ac yn bleser dod â Sioe Deithiol Amgylcheddol Ted Taclus ac Eli Eco i ysgolion yng Ngwynedd unwaith eto. Roedd y croeso'n wych ac ymateb y plant yn rhagorol. Ein gobaith ni yw y bydd y negeseuon pwysig hyn yn aros gyda'r plant ar hyd eu hoes."

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Eglwysi Annibynnol
Dosbarth Bangor a Bethesda

CYMANFA
YSGOLION SUL

yngh Nghapel Carmel,
Llanllechid

Dydd Sul, 17 Mai 2015
am 10.30 y bore

Arweinydd Cerddorol
Mrs Valerie Ellis, Pendref

Organydd:
Mrs Rhian Roberts,
Carmel.

Rhannau Arweiniol:
Ysgol Sul Carmel

Llywydd:
Elin Mair Jones, Carmel

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Gorffwysfan

Sadwrn 30 Mai
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

26 Mai
9, 23, 30 Mehefin
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R
CWSPAN

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Eglwys Maes y Groes
Talybont

Te Mefus

yn yr Ysgoldy

Sadwrn, 20 Mehefin
am 2.00 o'r gloch.

Eglwys Annibynnol
Bethlehem
Talybont

Te Mefus

yn Festri Bethlehem

Nos Fercher, 01
Gorffennaf

Mynediad £2.00

Elw at y Capel

Sesiynau Siarad i
Ddysgwyr

11-12, Ail Ddydd Sadwrn bob mis
ym Marchnad Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis
yngh Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i
wirfoddoli yn y sesiynau siarad,
cysylltwch â Meleri ar 01248
602131

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Mehefin 13eg
Cae Sioe Dyffryn Ogwen

Gorffennaf 11eg
Neuadd Ogwen

9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Côr y Penrhyn

Sadwrn 6 Mehefin
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Neuadd Ogwen
Bore Coffi

Eisteddfod Dyffryn
Ogwen

Sadwrn, 27
Mehefin
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

42 ain SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN

SADWRN 13 MEHEFIN 2015
Caeau Rygbi, BETHESDA

Cystadlaethau

Ceffylau / Cŵn / Defaid / Dofednod / Adran Cartref / Ffyn
Adloniant / Hen Gerbydau / Mabolgampau / Stondinau
Emlyn 'Display Team'
Rasus 'Terrier a Lurcher gyda Dei Banod

Mynediad

Oedolion £4
Pensiynwyr: £2
Plant £1

DYDDIADUR BOREAU COFFI
2015

30 Mai Cefnfaes, Bore Coffi
Gorffwysfan

06 Mehefin Cefnfaes,
Côr y Penrhyn

27 Mehefin Neuadd Ogwen,
Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

25 Gorffennaf Cefnfaes,
Cronfa Goffa Tracy Smith.

12 Medi Cefnfaes, Eglwys St.
Mair a St. Anne, Mynydd
Llandygai

26 Medi – Neuadd Ogwen, Plaid
Cymru.

31 Hydref Neuadd Ogwen,
Eisteddfod D. Ogwen.

28 Tachwedd Neuadd Ogwen,
Ffair Nadolig y Blaid Lafur.

Pwysig

Os ydych chi'n trefnu Bore Coffi yn
ardal Bethesda, bydd y rhestr
uchod yn gymorth i chi ddewis
dyddiad gwag.

Gallwch wedyn gynnwys eich
dyddiad chi ar y rhestr hon.

Bydd yn cael ei diweddaru ac yn
ymddangos pob mis.

Anfonwch y manylion at Neville
Hughes (600853).

Cyngerdd Corws Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru
Arweinydd – Alexander Martin

Profwch rai o'r darnau gwyhaf o gerddoriaeth opera a chorawl, i'w perfformio
gan un o ensembles gorau Cymru, sef Corws Cwmni Opera Cenedlaethol
Cymru, ac iddo fwy na 40 o aelodau, i gyfeiliant piano.

Yn yr hanner cyntaf, ymgollwch mewn cerddoriaeth aruchel, esgynnol gan
Brahms a Schubert. Ar ôl yr egwyl, ymdeimlwch â nerth ac angerdd opera gyda
pherfformiadau o uchafbwyntiau o operâu poblogaidd, yn cynnwys Il Trovatore,
Nabucco, Cavalleria Rusticana a William Tell.

Ymunwch â ni ar gyfer noson o haf yn llawn cerddoriaeth a pherfformiadau
eithriadol.

Nos Sadwrn, Mehefin 20, 2015. 7.30pm.
Neuadd Prichard Jones, Prifysgol Bangor

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Corneli Cudd

Bu deuddeg o fyfyrwyr blwyddyn 12 yn rhan o brosiect gwerthfawr iawn ar y cyd gyda Pontio ac Adran Gerdd y Brifysgol. Buont i gartref Plas Ogwen nifer o weithiau mewn cyfnod o fis gan roi perfformiadau cerddorol gyda'r cerddor Manon Llwyd. Cafodd y disgyblion sawl profiad ysgytwol wrth weld effaith cerddoriaeth ar yr henoed. Mae'r prosiect yn rhan o waith ymchwil gan Adran Gerdd y Brifysgol, sy'n canolbwyntio ar effaith cerddoriaeth ar henoed sy'n dioddef o dementia.

Etholiad Cyffredinol Mai 2015



Rhodddwyd gwahoddiad i'r holl ymgeiswyr sydd yn sefyll yn etholaeth Arfon i'r ysgol ar gyfer sesiwn Hawl i Holi gyda'r Chweched Dosbarth a'r Cyngor Ysgol. Tri o'r ymgeiswyr a ddaeth i'r ysgol, sef Catherine Jones (Plaid Lafur Sosialaidd), Alun Puw (Plaid Lafur) a Hywel Williams (Plaid Cymru), a chafwyd sesiwn ddifyr a bywiog iawn yng nghwmni'r tri. Cawsant ddeng munud i ddechrau i gyflwyno'i hunain ac yna wynebu chwech o gwestiynau gan y disgyblion ar faterion amrywiol fel polisiâu'r pleidiau ar addysg, refferendwm ar Ewrop, a barn yr ymgeiswyr am ISIS. Diolch o galon i'r tri ymgeisydd a ddaeth i'r ysgol am rannu eu barn gyda ni, ac am weithio'n galed am awr a hanner!

Cynhaliwyd etholiad yn yr ysgol hefyd i gyd-fynd gyda'r etholiad cyffredinol, Dyma'r ymgeiswyr - Bethan Hughes (Y Blaid Werdd), Ben Jones (UKIP), Katie Midwinter (Y Blaid Lafur), Owain Morgan (Democratiaid Rhyddfrydol), Gwynfor Rowlinson (Plaid Cymru) a Ianto Shea (Y Blaid Geidwadol). Roedd gan y chwech bosteri lliwgar o gwmpas yr ysgol a chynhaliwyd hystingau gyda'r ymgeiswyr. Cafwyd bocs du pwrpasol gan adran addysg y Cynulliad ar gyfer y pleidleisio. Dyma ganlyniad yr etholiad yn Ysgol Dyffryn Ogwen:

HUGHES Bethan (Y Blaid Werdd)	43	(13.1%)
JONES Ben (UKIP)	52	(15.8%)
MIDWINTER Katie (Y Blaid Lafur)	99	(30.1%)
MORGAN Owain (Dem. Rhyddfrydol)	11	(3.3%)
ROWLINSON Gwynfor (Plaid Cymru)	110	(33.4%)
SHEA Ianto (Y Blaid Geidwadol)	14	(4.3%)

Llongyfarchiadau mawr i'r chwe ymgeisydd!



Y chwe ymgeisydd

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Math Owen, sydd wedi cael ei ddewis ar gyfer y cynhyrchiad Cymraeg o 'Les Miserables' fydd yn cael ei lwyfannu yng Nghanolfan Mileniwm Cymru mis Hydref eleni.

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo â Mrs Lyn Ellis

Cydymdeimlwn â Mrs Lyn ar ei phrofedigaeth lem o golli ei mam yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynnes atoch fel ysgol ar adeg anodd i chi fel teulu.

Cofion

Anfonwn ein cofion hefyd at Ms Rhian Haf, a dymunwn wellhad llwyr a buan i chi.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Ms Medi Davies yn ei swydd newydd a phob lwc i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Ithel Temple Morris ar ei gamp yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym maes Celf a Chrefft. Llongyfarchiadau i ti ar dy gampwaith, Ithel. Ar y llwyfan, rhaid i ni longyfarch Efa Glain ar ennill y wobr gyntaf ar yr unawd cerdd dant. Da iawn ti Efa a phob lwc i ti yng Nghaerffili! Daeth ein parti unsain a'r gerddorfa yn drydydd yn yr Eisteddfod Sir.

Diolch

Diolch i Mr Brynmor Jones am helpu'r disgyblion i arddio. Mae gerddi'r Cyfnod Sylfaen yn edrych yn fendigedig rwan. Diolch yn fawr.

Planhigion a mwy o blanhigion!

Aeth rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyda Mrs Marian Jones i Ganolfan Moelyci i ddysgu mwy am blanhigion. Cafwyd croeso gwerth chweil a chafwyd cyfle euraidd i ddatblygu sgiliau plannu a chwynnu! Hefyd, yn ystod y bore, cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai creadigol ar y thema tyfu, lle cafodd pob un cyfle i wrando ar gerddoriaeth, peintio murluniau, creu dawnsfeydd ac ymlwybro drwy'r caeau gan arsylwi a labelu cant a mil o bethau diddorol. Yna, ar ôl eu picnic, aeth y dosbarth draw i Dreborth i Erddi Botaneg y Brifysgol lle cawsant weld planhigion rhyfeddol sy'n bwyta pryfed! Bu pob un yn sylly ar y Gwybedfagl enwog, gan ryfeddu ato'n cau am y morgrug! Roedd y cactws anferth a'r coed bananas hefyd yn ffefrynnau gan bawb.

Cyngor Ysgol

Mae aelodau o'r Cyngor Ysgol wedi llwyddo i gael grant o £500 ar gyfer creu a datblygu ein gerddi. Diolch i Mr Ben Stammers a'i gydweithwyr am helpu'r disgyblion i blannu pob math o flodau a phlanhigion. Yn wir, mae hyn wedi harddu tu allan i'r ysgol ac mae'n bleser cerdded i fyny at y brif fynedfa drwy'r enfys o liwiau! Diolch i Mr Huw Edward Jones am gydgorio'r cyfan.

Becws Cae Groes a Phost Rachub

Cafodd dosbarth Mrs Rona Williams brynhawn anturus yn crwydro'r ardal leol. Aethant i'r Becws yng Nghae'r Groes at Mr a Mrs Gwyn Williams, lle cawsant weld y cacennau cri yn cael eu crasu. Ar ôl y crasu a'r blasu, aethant draw i Siop y Post yn Rachub at Mr a Mrs Scott i brynu stampiau a phostio llythyrau. Diolch i drigolion yr ardal am eu croeso wrth i ni fynd allan ar ein teithiau cerdded yn ein siacedi llachar o amgylch yr ardal.

Glan-llyn

Aeth criw mentrus ac anturus o flwyddyn 5, unwaith eto i Lan-llyn i fwynhau tridiau o weithgareddau awyr agored ger Llyn Tegid. Cawsant brofiadau bythgofiadwy, gan gynnwys, ceufadu, adeiladu rafft, y cwrs rhaffau, cyfeiriannu a chanŵio. Bws tawel iawn oedd yn dychwelyd i Blas Ffrancon ar y prynhawn dydd Gwener! Diolchwn i'r aelodau staff, sef Mr Huw Edward Jones, Ms Sara a Ms Nicola am eu gofal o'r disgyblion yn ystod yr ymweliad.

Ras am Fwyd

Roeddem yn falch iawn o gael cefnogi dwy o'n cyn ddisgyblion sydd bellach yn Ysgol Dyffryn Ogwen sef, Mia Richards ac Ella Baker. Roedd y ddwy wedi trefnu 'Ras am Fwyd' i holl ysgolion y dalgylch, gan godi arian tuag at elusen cancr. Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i gymryd rhan yn y ras, a braf iawn cael adrodd fod Idwal Temple Morris wedi dod yn fuddugol yn ras y bechgyn, a Mared Morris wedi dod yn drydydd yn ras y genod. Llongyfarchiadau i bawb gymrodd ran, gan helpu i godi arian i achos sydd mor agos at galonnu pob yr un ohonom.

Cerdyn Coch i Hiliaeth

Cafodd blwyddyn 5 fore difyr dros ben yng nghwmni Noam Devey yn trafod hiliaeth, yn gysylltiedig â'r ymgyrch 'dangoswch gerdyn coch i hiliaeth'. Roedd Noam yn trafod yr annhegwch sydd wedi digwydd i garfannau penodol o bobl yn y gorffennol gan helpu'r plant i ddiffinio beth yw hiliaeth mewn gwirionedd. Yn ogystal, roedd yn eu harfogi gyda'r iaith briodol fel eu bod â'r sgiliau i ymateb i sefyllfaoedd real a

all godi, yn anffodus, o bryd i`w gilydd, heddiw. Diolch yn fawr iddo am ymdrin â mater mor sensitif mewn modd mor ddiddorol i`r plant. A chofiwch bob amser: `Dangoswch Gerdyn Coch i Hiliaeth!`

Cerddorfa

Fel rhan o`n cwriclewlm Cerddoriaeth, aeth dosbarth Mrs Parry Owen i`r Gadeirlan ym Mangor i gyngerdd arbennig iawn – Chamberfest - i ddathlu cerddoriaeth Johann Sebastian Bach. Diddanwyd disgyblion y Cyfnod Sylfaen gan Ensemble Cymru a fu`n chwarae darnau enwog a chantata gan Bach, a dysgwyd “Jesu, Joy of Man`s Desiring”, a chafwyd cyfle i`w chyd-ganu gyda Chôr Siambr y Brifysgol ar ddiwedd y bore. Llwyddodd y dosbarth i ennill CD o gerddoriaeth Pedr a`r Blaidd.

Gweithdy Golau – Jack Simone

Diolch i dad Jack Simone - cafodd Bl 3 amser gwerth chweil yn Neuadd Ogwen yn cymryd rhan mewn gweithdy golau. Tywyllwyd yr holl le a llwyddwyd i greu patrymau gyda thortshis oedd yn gelfyddyd ynddo` i hun. Diolch i Mr Simone ac i bob rhiant sy`n fodlon ein cynorthwyo fel hyn.

Eliffantod

Mae dosbarth Mrs Marian Jones wedi bod yn astudio eliffantod, ac am greaduriaid diddorol i`w hastudio. Maent wedi bod yn ymchwilio ac yn gwybod fod yr eliffantod yn byw hyd nes eu bod yn 70 neu hŷn; mai`r mamoth blewog oedd eu hen deidiau; mae'r ysgithrau wedi eu gwneud o ifori, ac mae ganddynt bedwar dant ac mae un yr un maint â bricsen! Mae eliffantod yn gallu nofio, crio, chwarae a chwerthin ac mae ganddynt gof anhygoel! Maent yn garedig iawn gyda`u teuluoedd a`u ffrindiau ac maent yn helpu anifeiliaid sydd yn sâl. Ond, wyddoch chi fod tua chant o eliffantod yn cael eu lladd yn ddyddiol. Ffaith gwbl anghredadwy. Mae`r dosbarth am ddechrau ymgychr arbennig i gynorthwyo i achub yr eliffantod ac mae gwaith diddorol dros ben ar droed! Mwy i ddilyn yn y rhifyn nesaf!

Gwobr Addysg Byd a Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae pob math o weithgareddau diddorol ar droed wrth i ni droi ein golygon at yr India. Diolch i Mrs Huws am ei gwaith caled yn arwain ac yn casglu`r holl dystiolaeth ynghyd ar gyfer yr achrediad.

Traws Gwlad y Faenol

Bu dros fil o ddisgyblion ysgolion cynradd yr ardaloedd hyn yn cymryd rhan yn y ras draws gwlad. Roedd rhai o ddisgyblion o`n hysgol ni yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau a da iawn chi, pob un ohonoch.

Noswaith o Ddawns

Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 6 i`r Galeri yng Nghaernarfon i gymryd rhan yn y ‘Noswaith o Ddawns’ - noson o ddawnsfeydd amrywiol gan ddisgyblion cynradd ac uwchradd y sir. Perfformiodd ein criw y ddawns ddisgo yn egnïol, creadigol a llawn bwrlwm. Diolch yn fawr iawn i Miss Nicola a Miss Sara am eu hyfforddi, i Mr Stephen Jones am ei waith ac i`r rhieni am eu cefnogaeth yn ystod y noson. Llongyfarchiadau i Begw, Boe-Celyn, Esme, Efa, Lauren, Caitlin, Emma, Ila, Lottie a Gemma!

Rygbi`r Urdd

Fe fu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi`r sir yn ddiweddar ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon. Llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd gynderfynol gan gystadlu`n frwdfrydig. Llongyfarchiadau i Boe Celyn, Erin Harney, Begw, Gethin Saynor, Jac Griffiths, Harry, Elis, Louis a Joseph. Diolch yn fawr i`r rhieni am eu cefnogaeth ar y noson.

Bingo Pasg

Llawer o ddiolch i`n Cyfeillion am drefnu`r Bingo unwaith yn rhagor. Cafwyd noson i`w chofio! Diolch arbennig i Mr Derek Griffiths am alw`r rhifau mewn ffordd hwyliog ac i bawb a gyfrannodd wyau Pasg a gwobrau i`r raffl. Gwnaethpwyd elw o £400. Diolchir hefyd i Mr a Mrs Dilwyn Owen a Mrs Jean Hughes am eu cymorth parod dros yr holl flynyddoedd.

Tyrd am dro Co`

Am braf oedd cael crwydro o amgylch Caernarfon a chymharu Rachub a Chaernarfon fel rhan o`n gwaith Daearyddol. Dyna fu hanes dosbarth Mrs Bethan Jones yn ddiweddar!

Plas Menai

Bu disgyblion Blwyddyn 4 ym Mhlas Menai yn mwynhau gweithgareddau amrywiol gyda Mr Stephen Jones. Cafwyd diwrnod anturus lle ‘roedd y disgyblion yn dilyn llwybrau ac yn ateb cwestiynau rhifedd penodol a oedd yn hogi eu sgiliau rhesymu a datrys problemau yn yr awyr agored.

Archifdy

Cafodd dosbarthiadau Mr H E Jones a Mr S Jones gyflwyniadau gan Gwenan Williams ar oes y Tuduriaid.

Diwrnod Trwynau Coch

Cafwyd sbort a sbri ar ddiwrnod Trwynau Coch a llwyddwyd i godi £206.61 tuag at yr achos da hwn.

Brechdanau Wy a Berwr Dŵr

Bu disgyblion y Dosbarth Meithrin yn hynod brysyr yn berwi wyau ac yn paratoi brechdanau blasus - wy a berwr dŵr - digon i dynnu dŵr o`r dannedd!

Cyfrinach Porthamel

Wyddoch chi beth? Mae yna goedwig fach yn cuddio ar lannau`r Fenai, ac maen gyfrinach! Doedd neb ohonom yn gwybod am fodolaeth y goedwig fach yma, hyd nes y daeth Mr Ben Stammers, tad Mabon, yma i`n goleuo! A`r hyn sy`n rhyfeddod yw, mai yn y goedwig fach yma mae`r tylwyth teg a`r wiwerod coch yn byw! Roedd Mrs Bethan Jones a`i dosbarth wedi dotio at y lle, a threuliwyd diwrnod cyfan yng nghanol heulwen mis Ebrill yn synnu a rhyfeddu at y gwahanol gynefinoedd a`r cuddfannau, ac at yr anifeiliaid bach sy`n byw nid nepell oddi wrthym, yn ddistaw bach. Dysgwyd llawer ac mae`n deg dweud fod amryw ohonom erbyn hyn wedi mynd draw am dro i Borthamel i weld y rhyfeddodau!

Dosbarth Derbyn

Mae aelodau o`r dosbarth Derbyn wrth eu boddau yn mynd i`r sesiynau chwaraeon wythnosol ym Mhlas Ffrancon y dyddiau hyn!

Sioe Harri Tudur

Cafodd disgyblion blynyddoedd 4 a 5 brynhawn bendigedig yn dysgu am hanes y brenin Tuduraidd Harri Tudur a`r cysylltiad â Phenmynydd. Sioe un dyn oedd hon, a Danny Grehan oedd yr actor oedd yn actio'r brenin enwog. Roedd y sioe yn rhan o waith thematig y dosbarth wrth astudio cyfnod y Tuduriaid. Cafodd y plant ymuno yn yr actio a holl fwrlwm y cyflwyniad. Dyma ddull oedd yn sicr yn eu helpu i gofio'r holl hanes!

Ysgol Abercaseg

Noson Gwricwlaidd

Cynhaliwyd noson gwricwlaidd i holl blant yr ysgol a`u rhieni yn ddiweddar. Yma ‘roedd cyfle i bawb weld a phrofi`r gwahanol weithgareddau sy`n cael eu cynnal yn ddyddiol yn yr ysgol ar gyfer hybu sgiliau rhifedd y plant. Braf oedd gweld brodyr a chwiorydd yn helpu`i gilydd, a gwell fyth oedd gweld y plant yn esbonio`r gweithgareddau i`w rhieni! Ymysg yr holl weithgareddau ‘roedd hefyd gyfle i`r rhieni weld a thrafod y profion Rhifedd Cenedlaethol y bydd plant blwyddyn 2 yn eu sefyll yn ystod Tymor yr Haf. Diolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi`r noson - ‘rydym yn mawr obeithio ei bod wedi bod o fudd ac o fwynhad i bawb.

Clybiau Dreigiau Bach a Mathemateg

Yn dilyn llwyddiant y Clwb Drama y tymor diwethaf, mae plant Blynyddoedd 1 a 2 bellach yn mwynhau mynychu clwb Dreigiau Bach a chlwb Mathemateg. Mae`r Dreigiau Bach wedi bod yn cael hwyl yn dysgu sut i chwarae pêl rwyd, a gwych ydy gweld bron bawb o Flwyddyn 2 yn aros yn yr ysgol ar gyfer y clwb Mathemateg.

Gwersi Tennis yn dod i ben

Yn dilyn hanner tymor cyfan (a sesiwn ychwanegol gan fod pawb yn mwynhau cymaint!) hoffai plant Blwyddyn 1 a 2 ddiolch o waelod calon i David Parry o Tennis Cymru am y gwersi tennis. Braf oedd cael mynd allan ar yr iard am ychydig o`r sesiynau olaf hefyd - cyfle i`r holl blant wir ymarfer y sgiliau roeddynt wedi bod yn eu dysgu.

Ysgol Rhiwlas

Ymweliad â Melin Llynon

Fel rhan o`u thema y tymor yma aeth dosbarth Ogwen ar ymweliad â`r tai Celtaidd ym Melin Llynon. Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn ymweld â`r tai, cael gwisgo dillad a phaent wyneb fel y Celtiaid cyn cael gwneud potiau clai a cheisio cynnau tân fel y buasai`r Celtiaid wedi ei wneud.

Ymweliad â fferm

Ymweliad gwahanol iawn i`r Celtiaid a gafodd dosbarth Idwal yn ddiweddar. Fel rhan o`u gwaith am anifeiliaid aethant ar daith i Ben Llyn i fferm. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael helpu ar y fferm ond yn sicr uchafbwynt y dydd i bawb oedd cael gweld yr wyn bach, a buont yn ddigon ffodus i weld oen yn cael ei eni!

Amgueddfa Awyrennol

Y tymor yma mae dosbarth Tryfan yn gwneud gwaith am Awyr-Beiriannwyr. Cafodd pawb ddiwrnod diddorol dros ben yn yr Amgueddfa Awyrennol yng Nghaernarfon yn ogystal â chael cyfle i weld yr ambiwlans awyr wrth ei waith.

Ysgol Rhiwlas

Llongyfarch

Mis diwethaf ‘roeddem yn llongyfarch yr ysgol am ennill dwy wobr aur. Mis yma, rydym yn ei llongyfarch am ennill dwy wobr eto, sef Cam 5 Ysgol Iach. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi cyrraedd y cam yma. Mae’r ysgol hefyd wedi ennill gwobr arian gyda’r cynllun gwên ysgolion. Da iawn chi.

Llongyfarchiadau i Cassie Dodd a Iori Price am wneud yn dda yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd ym Mharc Menai yn ystod y mis.

Mis diwethaf ‘roeddem yn sôn fod yr ysgol wedi bod yn dawel am fore oherwydd i’r disgyblion gynnal bore noddedig o ddistawrwydd. Braf i’w cael cyhoeddi iddynt godi’r swm gwyb o £590.55 am eu hymdrech. Da iawn blant - mi fydd yr athrawon eisiau i chwi wneud hyn yn amlach mae’n siŵr!!

Ymweliadau

Fel rhan o waith cwrs yr adran iau aeth y disgyblion ar ymweliad â Phlas Mawr yng Nghonwy. Yno cawsant fynd o amgylch tŷ’r Tuduriaid, a chael gwybod sut yr oeddynt yn byw yn ystod y cyfnod yma. Cafodd yr adran iau y fraint o gael ymweld â chae pêl-droed Dinas Bangor yr wythnos o’r blaen er mwyn gwneud gwaith ar hiliaeth. Roedd hyn yn rhan o’r prosiect “Cerdyn Coch i Hiliaeth” sydd yn waith y mae timau pêl-droed yn ei gefnogi. Buont yn gweithio gyda Neville Powell, rheolwr y clwb.

Daeth Andrew Setatree i’r ysgol i gynnal gwasanaeth boreol i’r plant unwaith eto y tymor yma. Diolch iddo.

Aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Dyffryn Ogwen ddiwedd y tymor diwethaf i gymryd rhan yn y ras am fywyd yr oedd yr ysgol wedi ei threfnu. Cawsant bnawn wrth eu bodd yn cwrdd â ffrindiau o ysgolion eraill, a helpu i godi arian at achos mor deilwng. Cyd-weithfa bwyd.

Cofiwch fod yr ysgol yn rhan o’r gydweithfa fwyd, a bod modd i chi allu prynu bag o salad, llysiau neu ffrwythau yn wythnosol am £3 y bag. Gallwch gysylltu â’r ysgol yn wythnosol erbyn Dydd Mercher i roi eich archeb i mewn, a bydd yn yr ysgol i’w chasglu erbyn pnawn Gwener. Mae’n hwylus, ac yn werth pob dimai, gyda chynnyrch ffres bob wythnos.

Ysgol Pen-y-bryn

Rygbi Cynradd (7 bob ochr) Yr Urdd, Rhanbarth Eryri



Cynhaliwyd yr uchod ar bnawn Mercher ,Ebrill y 15fed ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon. Bu cystadlu caled a brwdfrydig, ac fe ddaeth hogiau Penybryn (a Sophie Jeffreys) yn fuddugol unwaith yn rhagor. Diolch o galon i Mr Dylan Davies, Ysgol Dyffryn , am eu hyfforddi eto eleni, a hefyd i’r rhieni am eu cefnogaeth. Pob hwyl i’r tîm yn y rownd Genedlaethol yn Aberystwyth ar Fai 10fed. Gobeithio’n fawr y bydd Huw Davies a Daniel Hughes yn holliach erbyn hynny!!

Ras drawsgwlad Yr Urdd Conwy, Eryri, Meirionnydd a Môn

Bu nifer fawr o blant yr Ysgol yn rhedeg yn y ras yma ar un o gaeau Stad y Faenol, ger Bangor ar nos Iau Ebrill 23ain wedi diwrnod caled o waith. Nid yw’n ras hawdd, yn enwedig os ydych yn cystadlu yn erbyn rhedwyr profiadol o glybiau athletau ac ati. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu’n rhedeg - da iawn chi -‘ rydych yn esiampl dda i ni i gyd.

Ysgol Bodfeurig

Llongyfarchiadau

Rydym yn falch iawn o lwyddiant Lola Freeman, a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth draws gwlad Arfon yn y Faenol yn ddiweddar. Derbyniodd Lola darian a thlws arbennig i ddathlu ei llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr i bawb arall o Ysgol Tregarth a gymrodd ran yn y gystadleuaeth, - da iawn chi!

Parc Meurig

Thema dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma oedd ‘Gwingo ac Ymlusgo’, ac fel rhan o’r gwaith diddorol yma cafodd y dosbarth ymweld â Pharc Meurig, Bethesda. Cafodd y dosbarth fodd i fyw yn crwydro llwybrau’r parc, a chwilio am greaduriaid bach ymysg y planhigion a’r pridd. Diolch yn fawr i asiantaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am ein cynorthwyo a chreu gweithgareddau llawn hwyl.


Ambiwylans Awyr

Braf oedd cael croesawu Sue o’r Ambiwylans Awyr, Dinas Dinlle, atom ar Ebrill 24ain. Mwynhaodd dosbarth Llywelyn a Thryfan gyflwyniad ar waith yr Ambiwylans Awyr, gan gynnwys ffeithiau diddorol. Erbyn diwedd yr ymweliad’ roedd y plant wedi dysgu sut i helpu eraill sydd wedi eu hanafu - wel sôn am hwyl a sbri a gafodd y plant yn rhwymo’r cleifion! Diolch yn fawr i chwi am ymweld ag Ysgol Tregarth.

Ymweliad â Pili Palas

Thema Dosbarth Idwal ydi ‘Creaduriaid Bach’, felly i ffwrdd â ni am dro i Pili Palas, er mwyn cael dysgu mwy amdanynt. ‘Roedd yn ddiwrnod bendigedig o braf, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod y creaduriaid bach a hyd yn oed cyffwrdd rhai ohonynt! Plantos dewr iawn wir.

Gwaith maes Yr Afon Ogwen



Yr wythnos ddiwethaf, bu disgyblion Bl 5 a 6 yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwyddonol, a gwaith maes daearyddol, ar dir fferm Blaen y Nant, Nant Ffrancon. Thema'r tymor yma yw Troi a Llifo, felly ‘roedd hwn yn gyfle arbennig i ddod i adnabod yr afon Ogwen Bu’r plant yn ymchwilio i gyflymder yr afon, ymchwilio i gynefin yr afon, a dysgu enwau rhannau amrywiol o’r afon, yn ogystal ag edrych ar fapiau O.S. a dilyn taith yr afon. Cafodd pawb andros o ddiwrnod da ac roedd y plant wedi’u syfrdanu gan y golygfeydd godidog.

I hysbysebu eich gweithgareddau yn Llais Ogwan

Cysylltwch â Neville Hughes ☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgol Tregarth

Llongyfarchiadau

Rydym yn falch iawn o lwyddiant Lola Freeman, a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth traws gwlad Arfon yn y Faenol yn ddiweddar. Derbyniodd Lola darian a thlws arbennig i ddathlu ei llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr i bawb arall o Ysgol Tregarth a gymrodd ran yn y gystadleuaeth, - da iawn chi!

Parc Meurig

Thema dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma oedd ‘Gwingo ac Ymlusgo’, ac fel rhan o’r gwaith diddorol yma cafodd y dosbarth ymweld â Pharc Meurig, Bethesda. Cafodd y dosbarth fodd i fyw yn crwydro llwybrau’r parc, a chwilio am greaduriaid bach ymysg y planhigion a’r pridd. Diolch yn fawr i asiantaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am ein cynorthwyo a chreu gweithgareddau llawn hwyl.

Ambiwylans Awyr

Braf oedd cael croesawu Sue o’r Ambiwylans Awyr, Dinas Dinlle, atom ar Ebrill 24ain. Mwynhaodd dosbarth Llywelyn a Thryfan gyflwyniad ar waith yr Ambiwylans Awyr, gan gynnwys ffeithiau diddorol. Erbyn diwedd yr ymweliad’ roedd y plant wedi dysgu sut i helpu eraill sydd wedi eu anafu - wel sôn am hwyl a sbri a gafodd y plant yn rhwymo’r cleifion! Diolch yn fawr i chwi am ymweld ag Ysgol Tregarth.

Ymweliad â Pili Palas

Thema Dosbarth Idwal ydi ‘Creaduriaid Bach’, felly i ffwrdd â ni am dro i Pili Palas, er mwyn cael dysgu mwy andanynt. ‘Roedd yn ddiwrnod bendigedig o braf, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod y creaduriaid bach a hyd yn oed cyffwrdd rhai ohonynt! Plantos dewr iawn wir.

Gwaith maes Yr Afon Ogwen

Yr wythnos ddiwethaf, bu disgyblion B1 5 a 6 yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwyddonol, a gwaith maes daearyddol, ar dir fferm Blaen y Nant, Nant Ffrancon. Thema’r tymor yma yw Troi a Llifo, felly ‘roedd hwn yn gyfle arbennig i ddod i adnabod yr afon Ogwen. Bu’r plant yn ymchwilio i gyflymder yr afon, ymchwilio i gynefin yr afon, a dysgu enwau rhannau amrywiol o’r afon, yn ogystal ag edrych ar fapiau O.S a dilyn taith yr afon. Cafodd pawb andros o ddiwrnod da, ac ‘roedd y plant wedi’u syfrdanu gan y golygfeydd godidog.

GWASANAETH GOFAL TRAED

Ymarferydd Symudol Iechyd Traed

Triniaeth yn eich cartref

yn cynnwys

- Gofal traed i rai â chlefyd siwgrwr
- Cyrn
- Caleden (croen caled)
- Sodlau wedi eu hollti
- Tocio ewinedd
- Teneuo ewinedd
- Tyliniad adweitheg (Reflexology)
- Triniaethau eraill ar gael

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch
07808 741604

Gwasanaeth cyfeillgar

Yswiriant llawn

Ymweliadau gyda’r nos a thros y Sul

**Rhif aelodaeth o’r Alliance of Private
Practitioners: MPSP22901FHP**

Cydweithio i adfywio’r Stryd Fawr



Erbyn i’r Llais gael ei argraffu, bydd Neuadd Ogwen a Phartneriaeth Ogwen wedi agor siop ar y cyd ar Stryd Fawr Bethesda! Bydd y siop newydd yn gwerthu crefftiau, celf, gemwaith a chardiau ond bydd hefyd yn gwerthu llyfrau, dvd’s a chryno ddisgiau Cymraeg. Bydd hefyd yn gwerthu tocynnau digwyddiadau lleol, ac wrth gwrs, tocynnau Neuadd Ogwen.

Mae’r siop yn esblygiad o’r Siop grefftiau yn swyddfa Partneriaeth Ogwen lle rydym wedi bod yn gwerthu tocynnau cynrychiadau Neuadd Ogwen yn ogystal â rhoi llwyfan i grefftwyr ac artistiaid lleol werthu eu cynnyrch ym Methesda. Mae’r fenter newydd yn agor pennod newydd wrth i Bartneriaeth Ogwen a Neuadd Ogwen gydweithio i ddatblygu siop fasnachol a gofod artistig newydd ar y Stryd Fawr. Y bwriad yw datblygu oriel gelf fechan ar lawr gwaelod y siop a bydd gardd fechan yng nghefn y siop i ymlacio gyda phaned o goffi a llyfr da.

Rydym eisoes wedi gosod ein harcheb gyda’r Cyngor Llyfrau, mae bocseidiau o gryno ddisgiau a dvd’s plant wedi cyrraedd, ac edrychwn ymlaen at gael siop lyfrau Cymraeg yn ôl i Fethesda. Os oes galw, byddwn yn gwerthu cylchgronau Cymraeg o’r siop hefyd, a gofynnwn i chi alw heibio i danysgirio i gylchgronau penodol os hoffech hynny.

Mae Neuadd Ogwen a Phartneriaeth Ogwen yn ymrwymedig i adfywio Stryd Fawr Bethesda ac edrychwn ymlaen yn fawr i’ch croesawu i’r Siop Ogwen newydd.

Cofiwch ein cefnogi!

Ysgol Dyffryn Ogwen yn fuddugol yn 1965



Ydach chi’n cofio Mabolgampau Sir Gaernarfon (neu’r County Sports fel y’i gelwid) ers talwm? ‘Roedd hi’n dipyn o anrhydedd os oeddech chi’n mynd drwodd i gynrychioli’ch ysgol, heb sôn am ennill! Ac os oedd eich ysgol yn fuddugol, wel dyna ennill clod ac anrhydedd o fri!

Digwyddodd hynny i dîm Ysgol Dyffryn Ogwen am y tro cyntaf, os nad yr unig dro, yn 1965, ac mae Llais Ogwan, diolch i Robert Morris (Bob Temp), wedi derbyn llun o’r hogia buddugol. Roeddent yn eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Dyffryn Ogwen!

Dyma nhw (o’r chwith i’r dde):-
Alan Parry o Mynydd Llandegai (Rhedwr), Alan Sullivan o Glanogwen (Taflwr y shot), Nigel Whitehead o Dregarth (Taflwr javelin), Joe Owen (Joe P.T.) Athro ymarfer corff yr ysgol, Keith Roberts o Dalybont (Rhedwr) a Robert Morris (Bob Temp) o’r Gerlan (Neidiwr uchel).

CHWARAEON

RYGBI Adran 1 Gogledd

Yn dilyn y toriad Pencampwriaeth y 6 Gwlad ‘roedd Bethesda’n chweched yn Adran 1 Gogledd gyda 4 gêm yn weddill.

Yr un gyntaf oedd honno yn erbyn Llandudno ar Ddôl Ddafydd. Roedd y timau wedi cyfarfod ddwywaith yn Llandudno yn barod y tymor hwn gyda’r timau wedi ennill un gêm yr un. Cyfartal iawn oedd yr hanner cyntaf heb unrhyw sgôr o gwbl. Yn yr ail hanner y gwelwyd y perfformiad gwaethaf gan Fethesda’r tymor hwn - ildio 3 chais a cholli o 22 pwynt i 0.

Roedd y gêm nesaf gartref unwaith eto. Y tro hwn Nant Conwy, y ffefrynnau i ennill yr adran, oedd y gwrthwynebwyr. Erbyn hanner amser roedd Nant ar y blaen o 17 pwynt i 8 gyda maswr Bethesda, Mathew Parry wedi derbyn cerdyn coch. Roedd pawb yn disgwyl i Fethesda gael stid iawn yn yr ail hanner.

Yna, gwelwyd un o’r perfformiadau gorau a welwyd ar Ddôl Ddafydd. Brwydrodd pedwar dyn ar ddeg Bethesda i’r eiliad olaf gan gipio’r gêm o 23 pwynt i 22 a chwalu gobeithion Nant Conwy o ennill y bencampwriaeth.

Yn dilyn y fuddugoliaeth yn erbyn Nant Conwy cododd Bethesda i’r pedwerydd safle yn yr adran gyda’r ddwy gêm olaf i ffwrdd yn erbyn y ddau dîm sydd yn syrthio i Adran 2 y tymor nesaf.

Sgoriodd Bethesda 6 cais yn erbyn Dinbych ac erbyn y gêm olaf i ffwrdd ym Mlaenau Ffestiniog roedd y rhan fwyaf o’r timau eisoes wedi gorffen eu rhaglen chwarae am y tymor.

Petai Bethesda yn ennill y gêm ac yn sgorio 4 cais i ennill pwynt bonws, yna byddai hogia’ Dyffryn Ogwen yn gorffen yn drydydd yn yr adran – eu safle gorau ers nifer o dymhorau.

Mewn buddugoliaeth o 34 pwynt i 14 sgoriodd Bethesda 5 cais i orffen y tymor – tymor sydd wedi bod yn un anodd o ran anafiadau unwaith eto.

Hanner ffordd drwy’r tymor daeth newid i system hyfforddi’r clwb wrth i Graham Davies, Siôn Owain a Jared Mitchell gymryd yr awenau.



Bu Jared (uchod), o Seland Newydd, yn gaffaeliad mawr i’r clwb y tymor yma – gorffennodd ei dymor wedi sgorio 101 o bwyntiau sef, 14 cais, 11 trosiad a 3 gôl gosb. Mae pawb yn gobeithio y bydd yn aros am dymor arall ond pwy a wŷr beth ddaw!

Y Llewod yn Rhuo yn Aber!

Ddydd Sadwrn oer a gwyntog ar ddechrau mis Mai, roedd tîm 7 bob ochr Llewod Bethesda ar ei ffordd i lawr i Aberystwyth, i gymryd rhan yng nghystadleuaeth 7 bob ochr blynyddol yr Aber 7s.

Chwarae teg i drefnwyr y gystadleuaeth, roedd yna dipyn o waith trefnu ar ddigwyddiad o’r maint yma, gyda 72 o dimau dynion ac o gwmpas 30 o rai merched yn cymryd rhan dros 2 ddiwrnod ar gaeau Blaendolau.

Ar ôl dod o hyd i gornel fach gysgodol, sefydlwyd Camp Pesda. Wrth ddefnyddio gazebo, tarps, pabell Huw Tatws, cortyn ac ychydig o ddychymyg, roedd yr hogia yn edrych fel pe baent yn cymryd rhan mewn sioe Bear Grylls!

O’r gêm gyntaf, roedd yr hogia’n chwarae rygbi o safon uchel iawn. Roedd y rhan fwyaf o’r timau yn ceisio chwarae mewn ffordd debyg i’r gêm 15 bob ochr - chwilio am y dacl ac wedyn dadlwytho’r bêl - ac roedd Gethin Jeffries - prif gefnogwr (a ffwtbolar) - yn wallgof ar ochr y cae, yn methu deall pam roedd pobl gyda 27 acer o le ar y cae yn penderfynu, yn lle defnyddio’r gwagle, rhedeg i mewn i gesail rhyw ddyn mawr blewog! Roedd yn amlwg fod yr hogia wedi deall y gêm o’r funud gyntaf - cadw’r llinell amddiffynnol, edrych ar ôl y bêl, ac yn bwysicach na dim, cadw eu pennau a pheidio rhuthro wrth ymosod neu amddiffyn.

Chwipiodd yr hogia bawb yn eu gemau grŵp, a’r gemau yn arwain at y ffeinal. Yn anffodus, roedd MMP (enillwyr y gystadleuaeth y llynedd) yn dîm o safon uchel iawn, gydag ambell i chwaraewr yn chwarae i dîm Cwîns Caerfyrddin, ym mhrif gynghrair Cymru. Serch hynny, roeddynt yn gwybod eu bod nhw wedi bod mewn gêm efo hogia Pesda!

Er colli yn y gêm derfynol, rhaid cymryd y pwyntiau positif allan o’r gystadleuaeth, sef er mai dim ond y tro cyntaf oedd hi i’r Llewod gystadlu yn y gystadleuaeth yma, roedd yr hogia wedi dod yn ail allan o 72 o dimau!

Hoffai’r hogia ddiolch yn fawr i holl noddwyr y daith am eu cyfraniadau: SITAR, PEN Y BRENIN, CANLLAW, M HUGHES A’I FAB, BARBWR OGWEN, a NANT CIVILS, ac i NIA DAVIES am hel raffl. Diolch hefyd i’n cefnogwyr ffyddlon (Griff a Nia, Dylan a Nia a’r hogia), a Llion Trefor a Gethin Jeffries (am gadw’r morâl yn y camp).

Dyma’r gemau a’r canlyniadau:
Pesda 19 - Desperados 0
Pesda 52 - Dyfi Junction 0
Pesda 36 - Port Mad Dogs 0
Pesda 26 - Elite y Geltaidd 0
Pesda 40 - Mad Hens 0
Pesda 31 - Os On Tour 7
Gêm gyn- derfynol
Pesda 29 - Barely Legal Seagulls 5
Ffeinal: Pesda 7 - MMP 39

Clwb Criced a Bowllo Bethesda

Pleser yw cael cyhoeddi y bydd Clwb Criced a Bowllo Bethesda yn gwella eu cyfleusterau yn yr wythnosau nesaf. Diolch i grant o Gronfa Buddsoddi Cymunedol Mantell Gwynedd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd bydd y clwb yn gosod boiler newydd ac yn uwchraddio’r toiledau yn y clwb.

Hoffai’r pwyllgor atgoffa trigolion yr ardal am gyfleusterau gwyh y clwb ar gyfer sawl achlysur, am bris llogi rhesymol iawn - partïon (castell bownsio i bartïon plant), partïon bedydd, man cyfarfod i gymdeithasau, gigs a llawer mwy. Mae oriau a dyddiau agor y clwb yn hyblyg, i gyd-fynd ag anghenion eich digwyddiad. Gyda thair ystafell fawr, bar, a digonedd o le parcio y tu allan, mae’n gyfleuster gwyh ar gyfer amryw o ddigwyddiadau.

Gyda’r tymor criced newydd ddechrau a thywydd yr haf ar y gorwel l (gobeithio!) mae’r clwb yn falch o gyhoeddi y bydd sesiynau ymarfer y timau ieuencid yn dechrau yn y clwb nos Fawrth 12fed o Fai, o 6.00y.h tan 7.00y.h yn y clwb - oedranau 6 i 17. Croeso i unrhyw chwaraewyr newydd.

Mae’r clwb hefyd yn un o lond llaw o glybiau yng Nghymru sydd wedi dechrau tîm Merched. Mae’r merched yn ymarfer yn y clwb ar fore Sul o 11y.b i 12y.h. Unwaith eto croeso i unrhyw chwaraewyr newydd - oedran o 11 i fyny. Gyda’r clwb yn rhedeg dau dîm dydd Sadwrn, tîm ‘T20’, tîm canol wythnos, tîm cyfeillgar, tîm merched ac amryw o dimau ieuencid (6 - 17), mae digonedd o gyfleoedd i unrhyw un sydd eisiau rhoi cynnig ar griced, boed hynny ar y maes chwarae, neu drwy helpu’r clwb mewn rôl oddi ar y maes chwarae.

Manylion cyswllt – e-bost:
cricedbethesdacricket@outlook.com, Ffôn:
(01248) 600833 neu drwy Facebook:
ClwbCricedBethesda, Twitter:
@CricedBethesda



HYWEL WILLIAMS AS Diolch!

Braint yw cael fy ail-ethol fel **Aelod Seneddol Arfon**. Hoffwn ddiolch i bobl Dyffryn Ogwen am eu cefnogaeth, a byddaf yn parhau i frwydro ar eich rhan yma yn Arfon ac yn Llundain.

Cysylltu
70 Stryd Fawr | Bangor | LL57 1NR | 01248 372 948
8 Stryd y Castell | Caernarfon | LL55 1SE | 01286 672 076

